



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
29/2016  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
16/03/2016

# Gwerthusiad o Cymraeg y Gweithle: Adnodd Diagnostig Rheoli ar gyfer Sgiliau Iaith Gymraeg

# Gwerthusiad o Cymraeg y Gweithle: Adnodd Diagnostig Rheoli ar gyfer Sgiliau Iaith Gymraeg

## Adroddiad Terfynol

Awdur: Huw Bryer



Adolygwyr: Gareth Williams ac Angharad Thomas

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Siân Williams

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 3991

E-bost [sian.williams50@wales.gsi.gov.uk](mailto:sian.williams50@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2016

## Tabl Cynnwys

Rhestr Acronymau .....	2
Crynodeb Gweithredol .....	3
1. Cyflwyniad .....	10
Nod ac amcan y gwerthusiad .....	11
Y rhaglen waith .....	12
Strwythur yr adroddiad .....	13
2. Tystiolaeth Ymchwil, Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol .....	14
Tystiolaeth Ymchwil .....	15
Canllawiau blaenorol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.....	17
Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg .....	17
Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) .....	18
Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru .....	18
Strategaeth y Gymraeg .....	20
Comisiynydd y Gymraeg a Safonau Statudol yr Iaith Gymraeg .....	21
Tystiolaeth Rhanddeiliaid - Y Cyd-destun Polisi .....	23
3. Cymraeg y Gweithle - Dylunio a Gweithredu .....	25
Nodau Gwreiddiol .....	25
Gweithredu - Yr Adnodd Diagnostig i Reolwyr .....	27
Gweithredu - Yr Adnodd Diagnostig Sgiliau .....	28
Tystiolaeth Rhanddeiliaid - Gweithredu .....	31
4. Perfformiad - Targedau a Gwariant .....	33
Targedau .....	34
Cyllideb a Gwariant .....	38
5. Cymraeg y Gweithle - Safbwynt Defnyddwyr .....	40
Ymwybyddiaeth a Chymhelliant ar gyfer Defnyddio .....	41
Adborth ar Natur Defnydd, Ansawdd a Hwylustod Defnyddio .....	47
Adborth ar Hunanasesiadau .....	50
Adborth ar Aseidiadau a Chyflwyniad Canlyniadau .....	51
6. Effeithiau .....	53
Effeithiau Cynllunio Gweithle - Adnodd Diagnostig Sgiliau .....	54
Effeithiau Cynllunio Gweithle - Canllaw Cynllunio Gweithle .....	57
Symud ymlaen i hyfforddiant iaith Gymraeg .....	58
Effeithiau ar Ddiwylliant Sefydliad .....	59
Effeithiau ar Gyfranogwyr Unigol .....	60
7. Casgliadau ac Argymhellion .....	62
Casgliadau .....	62
Argymhellion .....	65

## Rhestr Acronymau

<b>Acronym</b>	<b>Esboniad</b>
ALTE	Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop
CBAC	Cyd-bwyllgor Addysg Cymru
CEFR	Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin Cyfeirio ar gyfer leithoedd
ELMS	Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli
ELWa	Addysg a Dysgu Cymru
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
FSW	Sgiliau Dyfodol Cymru
LMW	Arweinyddiaeth a Rheolaeth Cymru
NQF	Fframwaith Cymhwyster Cenedlaethol
RCE	Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol
SLF	Cronfa Arweinyddiaeth Sector
SSC	Cyngor Sgiliau Sector
WDP	Rhaglen Datblygu Gweithlu
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
WESB	Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru

## **Crynodeb Gweithredol**

### **Cyflwyniad**

Mae Cymraeg y Gweithle yn rhan o'r Rhaglen Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli (ELMS) a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae dwy elfen i Cymraeg y Gweithle, gyda'r gyntaf wedi ei anelu at alluogi cyflogwyr i ddadansoddi pa sgiliau iaith Gymraeg mae'r gweithlu eu hangen (Adnodd Diagnostig i Reolwyr). Bwriedir i ail elfen Cymraeg y Gweithle ddadansoddi sgiliau iaith Gymraeg presennol cyflogeion a chanolbwyntio ar agweddau sydd angen eu gwella (Adnodd Diagnostig Sgiliau). Roedd Cymraeg y Gweithle yn anelu at weithio gyda tharged o 100 o gyflogwyr i gyd.

Rheolwyd Cymraeg y Gweithle o fewn Llywodraeth Cymru gydag agweddau o'r gwaith wedi'u hallanoli i Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a Fusion Workshop Cyf.

Er i raglen ELMS gael ei dynnu'n ôl yn 2014, mae Cymraeg y Gweithle yn dal i fod ar gael fel adnodd i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector gwirfoddol yng Nghymru i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim.

### **Gwerthusiad o Cymraeg y Gweithle**

Yr amcan yw rhoi gwerthusiad terfynol, crynodol o Cymraeg y Gweithle gan adeiladu ar dystiolaeth gynharach a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiadau interim a diweddarau ar raglen ELMS yn ehangach.

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf, mewn cysylltiad â York Consulting LLP a IFF Research Cyf., gan Lywodraeth Cymru ym Mai 2012 i gynnal gwerthusiad hirdymor o'r Rhaglen Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli (ELMS) yng Nghymru.

Mae'r fethodoleg ar gyfer y gwerthusiad crynodol yma o Cymraeg y Gweithle wedi cynnwys:

- adolygu dogfennau polisi, strategaeth ac ymchwil perthnasol i asesu'r cyd-destun strategol ar gyfer cyllido Cymraeg y Gweithle yn wreiddiol ac y gweithredodd ynddo wedi hynny
- adolygu gwybodaeth monitro a thystiolaeth werthusol a gafwyd gan CBAC yn cynnwys canfyddiadau o ddau arolwg ar y we<sup>1</sup>
- paratoi canllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio mewn gwaith maes ansoddol gyda rhanddeiliaid allweddol prosiect Cymraeg y Gweithle a chyflogwyr a chyflogeion a gymerodd ran yn y cynllun
- cynnal cyfweiliadau ansoddol gyda naw rhanddeiliad yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, CBAC a WEFO
- cynnal gwaith maes ansoddol gyda phum cyflogwr a deuddeg o gyflogeion a ddefnyddiodd neu a gymerodd ran yn yr Adnodd Diagnostig Sgiliau.

### **Canfyddiadau Ymchwil - Tystiolaeth Ymchwil, Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol**

Dangosodd y gwerthusiad fod nifer o astudiaethau ymchwil a gynhaliwyd yn flaenorol yng Nghymru<sup>2</sup> yn tystiolaethu nad oes gan y rhan fwyaf o gyflogwyr ddulliau ffurfiol ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg eu gweithlu.

Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad polisi clir i ddatblygu dull ar-lein ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithle.

---

<sup>1</sup> Cynhaliodd CBAC arolygon ar y we ar wahân o gyflogwyr a chyflogeion a gofrestrodd ar wefan Cymraeg y Gweithle yn ystod 2014. Cafwyd 19 ymateb i'r arolwg cyflogwyr a 87 ymateb i'r arolwg cyflogeion.

<sup>2</sup> Sgiliau iaith Gymraeg mewn Saith Sector. Adroddiad i Bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru gan Beaufort Research a Menter a Busnes. Mawrth 2005. Y saith sector oedd twristiaeth a hamdden, bwyd-amaeth, gwasanaethau ariannol a busnes, gwasanaethau gofal, cyfryngau, manwerthu, cyfanwerthu a gweithgareddau gwasanaeth eraill ac adeiladu. Hefyd anghenion sgiliau Cymrg mewn wyth sector. 2014. IFF Research Cyf. ac Old Bell 3 Ltd. Yr wyth sector oedd: gofal plant, gofal cymdeithasol, creadigol, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, gwasanaethau proffesiynol/busnes, manwerthu, amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd ac adeiladu.

Mae nifer o Safonau'r Gymraeg<sup>3</sup> a gyflwynir gan y Comisiynydd Iaith yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal mesurau yn gysylltiedig gyda chynllunio a hyfforddiant gweithlu'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Cymraeg y Gweithle, a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yn benodol, yn rhoi datrysiad addas i gyflogwyr lle y bydd Safonau'r Gymraeg yn weithredol, fel rhan o weithgareddau cynllunio gweithle ehangach sy'n eu helpu i ennill a chydymffurfio gyda'r safonau hyn.

Mae'r cysylltiadau polisi rhwng hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a gwella sgiliau arweinyddiaeth a rheoli (prif ffocws y Rhaglen ELMS y cafodd Cymraeg y Gweithle ei hariannu ganddi) rywfaint yn amwys.

### **Canfyddiadau Allweddol - Dyluniad a Gweithrediad**

Canfu'r gwerthusiad i CBAC a Fusion Workshop Cyf gydweithio'n dda a bod y cynnyrch gorffenedig, adnodd diagnostig ar-lein gydag asesiadau ar gyfer darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn gysylltiedig â disgrifiadau lefel Cymraeg i Oedolion, yn cyfateb yn agos â'r nodau gwreiddiol ar gyfer yr Adnodd.

Fodd bynnag, ni ddatblygodd yr Adnodd Sgiliau i Reolwyr yn ôl y bwriad. Yn hytrach nag adnodd diagnostig rhyngweithiol, mae'r hyn a gynhyrwyd mewn gwirionedd yn Ganllaw Cynllunio Gweithle mwy goddefol a chyffredinol ar ffurf dogfen PDF a gyhoeddir ar wefan Cymraeg y Gweithle. Hefyd treuliyd cryn dipyn o amser i ddatblygu Canllaw Cynllunio Gweithle ac ni chafodd ei lansio hyd Ionawr 2015, tua phedair blynedd ar ôl y syniad gwreiddiol am Adnodd Sgiliau i Reolwyr.

Canfu'r gwerthusiad hefyd fod diffyg ffocws a strategaeth yn nhermau hyrwyddo Cymraeg y Gweithle a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i gyflogwyr a allai fod eisiau ei ddefnyddio.

---

<sup>3</sup> Yn benodol safonau 105, 106, 107, 108, 109 a 110.

## **Canfyddiadau Allweddol - Targedau Perfformiad a Gwariant**

Roedd gan Cymraeg y Gweithle darged o gefnogi 100 o gyflogwyr yng Nghymru. Roedd 106 o gyflogwyr wedi cofrestru ar gronfa ddata CBAC yn Ionawr 2015. Roedd cyflogeion i 75 o'r cyflogwyr hyn wedi defnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau mewn gwirionedd.

Dengys gwerthusiad mewnol gan CBAC fod mwyafrif y cyflogwyr a gofrestrodd wedi'u lleoli yn Nwyrain Cymru, gyda'r rhan fwyaf yng Nghaerdydd.

Cyrff sector cyhoeddus yw'r rhan fwyaf o gyflogwyr a gofrestrodd i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau. Daw'r rhan fwyaf o'r cyflogwyr o'r sector Addysg, gyda Llywodraeth neu Lywodraeth Leol yn dilyn.

Dengys data CBAC fod cyfanswm o 943 o gyflogeion yn ddefnyddwyr cofrestredig. Fodd bynnag, ni fydd pob un ohonynt yn gyflogeion unigol gan i rai cyflogwyr greu nifer o gyfrifon sy'n amharu rhywfaint ar y data yng nghyswllt cyfanswm nifer y cyflogeion a gynhaliodd asesiadau mewn gwirionedd.

Menywod yw mwyafrif (tua 70 y cant) y cyflogeion a gofrestrodd ar gronfa ddata yr Adnodd Diagnostig Sgiliau.

£688,000 oedd y gyllideb wreiddiol ar gyfer Cymraeg y Gweithle. Roedd hyn yn un y cant o gyfanswm cyllideb wreiddiol rhaglen ELMS. Fel ym Mawrth 2014, gwariwyd cyfanswm o £331,000 ar Cymraeg y Gweithle, 48 y cant o'r gyllideb wreiddiol. Roedd gwir gost uned fesul cyflogwr a gefnogwyd gan yr Adnodd Diagnostig Sgiliau 36 y cant yn is nag a fwriadwyd ar sail y gyllideb a thargedau gwreiddiol sy'n cynrychioli gwerth da am arian.

## **Canfyddiadau Allweddol - Safbwynt Defnyddwyr**

Cafodd y rhan fwyaf o gyflogwyr eu cymell i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau fel rhan o weithgareddau ehangach cynllunio gweithlu gan cynnwys



archwiliadau sgiliau. Diffyg amser neu alluedd fu'r prif rwystr a nodwyd gan gyflogwyr oedd wedi cofrestru ond na aeth ymlaen i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau a'i asesiadau.

Roedd elfen hunanasesu yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn addas ac yn ychwanegu gwerth yn nhermau gosod yr asesiadau ar y lefel gywir ar gyfer y cyflogeion a gymerai ran. Fe wnaeth rhai cyflogeion 'ei chwarae'n ddiogel' er mwyn peidio gor-ddweud eu sgiliau iaith Gymraeg. Fodd bynnag, gallai'r feddalwedd addasu pa mor anodd oedd asesiadau wrth i'r cyflogeion eu gwneud.

Bu CBAC yn gweithio mewn modd rhagweithiol i hyrwyddo Cymraeg y Gweithle a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau ac roedd y gwaith hwn yn allweddol er mwyn galluogi cyflogwyr ddod i wybod amdano.

Yn gyffredinol roedd adborth defnyddwyr ar yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn gadarnhaol er bod ambell fater yn codi gan gynnwys y potensial i amlygu meysydd ar gyfer gwella (ar gyfer cyflogeion unigol) wrth gyflwyno canlyniadau eu profion. Roedd cyflogeion a wnâi asesiadau gwrando a siarad yn fwy tebygol o roi gwybod am broblemau technegol ac roedd yr adborth cyffredinol ychydig yn llai cadarnhaol yng nghyswllt y ddau brawf hyn (o gymharu â darllen ac ysgrifennu).

Bu canmol gan gyflogwyr a chyflogeion am effeithiolrwydd a chysondeb CBAC wrth farcio a dychwelyd canlyniadau. Yn gyffredinol, bu cyflogwyr a staff hefyd yn fodlon iawn gyda'r ffordd y cyflwynwyd canlyniadau. Bu'r ffaith y cysylltwyd hyn gyda lefelau Cymraeg i Oedolion yn neilltuol o ddefnyddiol.

### **Canfyddiadau Allweddol - Yr Effeithiau**

Bu'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yn adnodd ategol defnyddiol i gyflogwyr yn eu gweithgareddau cynllunio gweithlu, er nad yw pawb wedi'i ddefnyddio yn y ffordd hon. Defnyddiodd rhai cyflogwyr ganlyniadau'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i wneud penderfyniadau gwybodus am fuddsoddi mewn hyfforddiant

iaith Gymraeg ac ystyried/penderfynu sut y dynodir y Gymraeg mewn swyddi gwag sy'n cael eu hysbysebu.

Mae p'un ai a gymerodd cyfran ddigonol o staff ran yn ffactor allweddol yn y graddau y defnyddiodd cyflogwyr y canlyniadau yn nhermau cynllunio gweithlu. Teimlai'r rhan fwyaf o gyflogwyr a ddefnyddiodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau fod y canlyniadau wedi rhoi darlun cliriach iddynt o sgiliau a galluoedd eu gweithlu yn y Gymraeg.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn monitro dilyniant cyflogeion a aeth ymlaen i ymrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar ôl cwblhau'r Adnodd Diagnostig Sgiliau. Byddai hyn wedi bod yn ychwanegiad defnyddiol i'r prosiect a dangosodd yr ymchwil ansoddol nifer o enghreifftiau lle'r oedd dilyniant i hyfforddiant yn y Gymraeg wedi digwydd gyda lefelau cadarnhaol o briodoliad.

Mae peth tystiolaeth fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar ddiwylliant sefydliad yn cynnwys y Gymraeg yn cael proffil uwch yn y gweithle a staff yn cael eu hannog a'u cefnogi gan gydweithwyr mewn gwahanol ffyrdd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith.

Mae tystiolaeth hefyd fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi arwain at rai effeithiau cadarnhaol ar gyfranogwyr unigol. Soniodd cyfranogwyr am ymdeimlad o gadarnhad neu ddilysiad ar lefel eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae hefyd wedi helpu rhai cyflogeion i gyfiawnhau ymwneud â hyfforddiant yn y Gymraeg ac wedi eu helpu i sicrhau eu bod wedi dewis hyfforddiant ar y lefel fwyaf priodol iddynt.

### **Argymhellion**

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd, mae'r gwerthusiad yn gwneud cyfres o bedwar argymhelliad.

**Argymhelliad 1.** Ar ôl buddsoddi i ddatblygu Cymraeg y Gweithle, mae angen i Lywodraeth Cymru yn awr ystyried a phenderfynu sut y gellid manteisio i'r eithaf ar gynyddu ei werth i gyflogwyr a'u cyflogeion yng Nghymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 2.** Er mwyn cynyddu gwerth a defnydd Cymraeg yn y Gweithle i'r eithaf yn y dyfodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddynodi a dyrannu adnoddau ychwanegol i barhau i hyrwyddo, gwasanaethu a maes o law efallai i ddatblygu ac uwchraddio'r wefan a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau. Byddai angen i'r buddsoddiad hwn roi ystyriaeth i'r galw tebygol yn y dyfodol er mwyn sicrhau fod adnoddau cyflenwi yn gymesur gyda'r galw a hefyd i sicrhau fod ansawdd ac effeithiolrwydd yr asesiadau'n parhau'n uchel. Heb y buddsoddiad parhaus hwn, mae'r defnydd o Cymraeg y Gweithle yn debygol o ostwng yn gyflym ac ni fydd yr adnoddau amrywiol yn cael eu defnyddio. Byddai hyn yn golygu bod risg y caiff ymrwymiad polisi allweddol yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei esgeuluso.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu glir er mwyn ymgysylltu ac ymrwymo partneriaid allweddol megis Canolfannau Cymraeg i Oedolion, Comisiynydd y Gymaeg a rhwydweithiau proffesiynol eraill sy'n ymwneud ag adnoddau dynol ac iaith i helpu hyrwyddo ymwybyddiaeth o Cymraeg yn y Gweithle. Dylai'r strategaeth gyfathrebu hefyd osod adnodd mwy soffistigedig i ddynodi a thargedu'n strategol ddarpar gyflogwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â'r rhai y bydd Safonau'r Gymraeg yn berthnasol iddynt yn y dyfodol agos.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio os gellir rhoi dull syml, cost-isel yn ei le i fonitro dilyniant defnyddwyr cofrestredig yr Adnodd Diagnostig Sgiliau i gyrsiau Cymraeg i Oedolion fel y gellir dadansoddi'r wybodaeth yma a'i defnyddio i helpu targedu adnoddau'n effeithlon yn y dyfodol.

# 1 Cyflwyniad

1.1 Cafodd Old Bell 3 Cyf., ar y cyd â York Consulting LLP ac IFF Research Cyf., eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012 i gynnal gwerthusiad hirdymor o'r Rhaglen Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli (ELMS) yng Nghymru.

1.2 Roedd ELMS yn rhaglen flaenllaw a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), drwy'r rhaglenni Cydgyfeirio<sup>4</sup> a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol<sup>5</sup>, oedd yn cynnwys:

'Agenda o brosiectau, rhaglenni a chynlluniau cysylltiedig ym maes cyffredinol arwain a rheoli, i gyd yn cyfrannu tuag at welliant strategol a chefnogaeth ar gyfer sgiliau datblygu a chapasiti yn economi Cymru ac o fewn busnesau a sefydliadau yng Nghymru'<sup>6</sup>.

1.3 Roedd rhaglen ELMS yn cynnwys nifer o wahanol ymyriadau oedd ar wahân ond yn rhyng-gysylltiedig, sef:

- cyfres o weithdai 'mynediad agored' ar arwain a rheoli
- cyrsiau hyfforddi arweinyddiaeth a rheoli a gyllidwyd ar ddisgresiwn oedd gael i gyflogwyr drwy Raglen Datblygu Gweithlu Llywodraeth Cymru
- llinyn hyfforddiant a mentora
- Cronfa Arweinyddiaeth Sector a neilltuwyd i Gynghorau Sgiliau Sector i ddatblygu darpariaeth hyfforddiant arwain a rheoli penodol i sector.

1.4 Cyhoeddwyd tri adroddiad gwerthuso (Interim, Diweddariad a Therfynol) yng nghyswllt maes llinyn rhaglen ELMS. Cyhoeddwyd dau adroddiad gwerthuso hefyd yn ymwneud â Chanolfan Rhagoriaeth Cymru ar Arwain

<sup>4</sup> Yn ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen.

<sup>5</sup> Yn ardal Dwyrain Cymru - Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Sir Fynwy, Casnewydd, Caerdydd, Bro Morgannwg.

<sup>6</sup> Cynllun Busnes Cydgyfeirio. Tudalen 5.

a Rheoli, gwasanaeth cysylltiedig a gaiff hefyd ei ran-gyllido drwy rhaglen ELMS<sup>7</sup> fel rhan o'r contract.

- 1.5 Cymerodd Llywodraeth Cymru benderfyniad polisi i ddod â rhaglen ELMS i ben (yn cynnwys pob un o'r pedwar math o ymyriad a restrir uchod) yn ystod 2014 fel rhan o broses o addasu fesul cam i'r blaenoriaethau ar gyfer Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yr Undeb Ewropeaidd.
- 1.6 Pumed elfen ELMS yw Adnodd Diagnostig Rheoli Sgiliau 'Cymraeg y Gweithle'<sup>8</sup>. Mae dwy elfen yn Cymraeg y Gweithle, gyda'r cyntaf yn anelu i alluogi cyflogwyr i ddadansoddi pa sgiliau iaith Gymraeg y mae eu gweithlu eu hangen (Adnodd Diagnostig i Reolwyr). Bwriedir i ail elfen Cymraeg y Gweithle ddadansoddi sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion ar hyn o bryd ac i ganolbwyntio ar yr agweddau sydd angen eu gwella (yr Adnodd Diagnostig Sgiliau).
- 1.7 Cafodd Cymraeg y Gweithle ei reoli'n fewnol o fewn Llywodraeth Cymru gydag agweddau o'r gwaith yn cael eu hallanoli i Gydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a Fusion Workshop Cyf.
- 1.8 Er y daeth rhaglen ELMS i ben yn 2014, mae Cymraeg y Gweithle yn parhau i fod ar gael fel adnodd rhad ac am ddim i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yng Nghymru.

### **Nod ac amcan y gwerthusiad**

- 1.9 Prif nod y gwerthusiad o ELMS yw gwerthuso darpariaeth ac effeithlonrwydd prosiectau Cronfa Cydgyfeirio a Chystadleurwydd ELMS.

---

<sup>7</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-enhancing-leadership-management-skills-programme/?lang=en>

<sup>8</sup> Gweler: [www.workplacewelsh.org.uk](http://www.workplacewelsh.org.uk)

1.10 Amcan yr adroddiad yma yw rhoi gwerthusiad crynodedol terfynol o Cymraeg y Gweithle gan adeiladu ar dystiolaeth gynharach a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiadau interim a diweddariad ar raglen ELMS yn ehangach.

### **Y rhaglen waith**

- 1.11 Mae'r gwaith a fu'n sylfaen i'r gwerthusiad terfynol yma o Cymraeg y Gweithle wedi cynnwys yr elfennau dilynol:
- mynychu cyfarfod o grŵp llywio gwerthuso ELMS ar 30 Gorffennaf 2014 i drafod a chytuno ar gam olaf y rhaglen waith
  - paratoi adnodd gwybodaeth ar fethodoleg ar gyfer grŵp llywio'r gwerthusiad ar 22 Rhagfyr 2014 yn nodi gwybodaeth fonitro a thystiolaeth werthuso sydd ar gael drwy CBAC a diwygiadau i'r rhaglen waith arfaethedig
  - adolygu dogfennau polisi, strategaeth ac ymchwil perthnasol i asesu'r cyd-destun strategol y cafodd Cymraeg y Gweithle ei gyllido ynddo yn wreiddiol ac y mae'n gweithredu ynddo yn ddilynol
  - adolygu gwybodaeth monitro a thystiolaeth werthusol a gafwyd gan CBAC yn cynnwys canfyddiadau dau arolwg ar y we<sup>9</sup>
  - paratoi canllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio mewn gwaith maes ansoddol gyda rhanddeiliaid allweddol ym mhrosiect Cymraeg y Gweithle a'r cyflogwyr a chyflogeion sy'n cymryd rhan
  - cynnal cyfweiliadau ansoddol gyda naw rhanddeiliad yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, CBAC a WEFO
  - cynnal gwaith maes ansoddol gyda phum cyflogydd a deuddeg cyflogai oedd wedi defnyddio neu gymryd rhan yn yr Adnodd Diagnostig Sgiliau.

---

<sup>9</sup> Cynhaliodd CBAC arolygon ar wahân ar y we o gyflogwyr a chyflogeion oedd wedi cofrestru ar wefan Cymraeg y Gweithle yn ystod 2014. Cafwyd 19 ymateb i'r arolwg o gyflogwyr a 87 ymateb i'r arolygon o gyflogeion.

## **Strwythur yr adroddiad**

1.12 Yng ngweddill yr adroddiad yma, rydym yn:

- ystyried tystiolaeth ymchwil berthnasol oedd yn sylfaen i'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol ar gyfer Cymraeg y Gweithle (Pennod 2)
- ystyried dyluniad a gweithrediad Cymraeg y Gweithle (Pennod 3)
- ystyried perfformiad yn ymwneud â thargedau a gwariant (Pennod 4)
- ystyried safbwynt defnyddwyr (Pennod 5)
- ystyried effeithiau Cymraeg y Gweithle (Pennod 6)
- gosod ein casgliadau ac argymhellion (Pennod 7).

## 2 Tystiolaeth Ymchwil, Polisi a Chyd-destun Deddfwriaethol

2.1 Yn y bennod hon edrychwn ar y dystiolaeth ymchwil a'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol a arweiniodd at brosiect Cymraeg y Gweithle. Ystyriwn hefyd sut yr esblygodd y cyd-destun polisi a deddfwriaethol ers cychwyn a lansio Cymraeg y Gweithle. Mae'r bennod yn defnyddio dadansoddiad o amrywiol ddogfennau ymchwil a pholisi perthnasol a thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o gyfweiliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid.

Canfyddiadau allweddol a amlinellir yn y bennod hon:

- Dengys tystiolaeth ymchwil nad oes gan y rhan fwyaf o gyflogwyr yng Nghymru adnoddau ffurfiol ar waith ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg eu gweithlu.
- Mae'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys ymrwymiad polisi clir i ddatblygu adnodd ar-lein ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg o fewn y gweithle. Cafodd yr angen am adnodd o'r fath ei ategu mewn argymhellion a wnaed gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.
- Mae nifer o'r Safonau newydd mewn perthynas â'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gynnal mesurau'n gysylltiedig â chynllunio a hyfforddiant gweithlu yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae Cymraeg y Gweithle, a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yn benodol, yn rhoi datrysiad addas i gyflogwyr lle y bydd Safonau'r Gymraeg yn weithredol, fel rhan o weithgareddau cynllunio gweithle ehangach sy'n eu helpu i ennill a chydymffurfio gyda'r safonau hyn. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldebau am hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac mae'n cynnig cyngor a chefnogaeth yn rhad ac am ddim i fusnesau a chyrrff trydydd sector sy'n cynnwys cyngor ar sut i fesur, datblygu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Mae'r cysylltiadau polisi rhwng hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a gwella sgiliau arwain a rheoli (prif ffocws ELMS) rywfaint yn amwys.



## Tystiolaeth Ymchwil

- 2.2 Yn 2005, cynhaliodd Sgiliau Dyfodol Cymru ymchwil a arolygodd dros 2,000 o gyflogwyr mewn saith sector yng nghyswllt anghenion sgiliau iaith Gymraeg<sup>10</sup>.
- 2.3 Nododd yr ymchwil nifer o ganfyddiadau allweddol sy'n cefnogi'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer prosiect Cymraeg y Gweithle y cyfeiriwyd atynt yng Nghynlluniau Busnes ELMS. Er enghraifft, nododd ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru yr holwyd busnesau gyda gofyniad am sgiliau iaith Gymraeg os oedd ganddynt ddull ffurfiol ar gyfer dynodi anghenion sgiliau iaith Gymraeg a hyfforddiant eu staff presennol. Canfuwyd nad oedd gan fwyafrif llethol y busnesau dan sylw unrhyw ddull ffurfiol; mewn gwirionedd dim ond 2 y cant o'r busnesau ddywedodd fod ganddynt ddull ffurfiol ar gyfer gwneud hynny.<sup>11</sup>
- 2.4 Esboniodd adroddiad Sgiliau Dyfodol Cymru fod canfyddiad allweddol mewn adroddiad cynharach a gomisiynwyd gan ELWa<sup>12</sup> ar anghenion sgiliau iaith Gymraeg yn y sector cyhoeddus yn cefnogi hyn - roedd hyd yn oed y rhai yn y sector cyhoeddus gyda chynllun iaith Gymraeg yn tueddu i fod heb ddull ffurfiol ar gyfer adnabod anghenion sgiliau iaith Gymraeg a hyfforddiant eu cyflogeion<sup>13</sup>.
- 2.5 Yn ychwanegol (ac yn neilltuol o berthnasol i'r Adnodd Diagnostig i Reolwyr), canfu ymchwil Sgiliau Dyfodol Cymru 'wrth ystyried recriwtio staff newydd, gofynnwyd i ymatebwyr os oedd ganddynt ddull o ddynodi angen am sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi gwahanol yn y lleoliad dan sylw. Dywedodd y mwyafrif (77 y cant) nad oedd ganddynt ddull o'r

---

<sup>10</sup> Sgiliau Iaith Gymraeg mewn Saith Sector. Adroddiad i Bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru gan Beaufort Research a Menter a Busnes. Mawrth 2005. Y saith sector oedd twristiaeth a hamdden, bwyd-amaeth, gwasanaethau ariannol a busnes, gwasanaethau gofal, cyfryngau, manwerthu, cyfanwerthu a gweithgareddau gwasanaeth arall ac adeiladu.

<sup>11</sup> Ibid. Tudalen 27.

<sup>12</sup> Addysg a Dysgu Cymru fel y bodolai ar y pryd.

<sup>13</sup> Ibid. Tudalen 27.

fath a dim ond 15 y cant ddywedodd fod ganddynt adnodd ac ni wyddai'r 8 y cant arall<sup>14</sup>.

- 2.6 Yn fwy diweddar (2014), arolygodd ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru tua 4,000 o gyflogwyr ar eu hanghenion sgiliau iaith Gymraeg mewn wyth sector<sup>15</sup>. Canfu'r gwaith yma mai dim ond tri y cant o gyflogwyr (yn yr yr wyth sector) oedd yn cofnodi, mesur neu asesu lefel sgiliau iaith Gymraeg ymysg eu staff. Canfuwyd bod hyn yn 'llawer mwy cyffredin yn y sector gofal plant a gofal cymdeithasol'<sup>16</sup>.
- 2.7 Aeth adroddiad ymchwil 2014 ymlaen i nodi y defnyddiwyd amrywiaeth o adnoddau i gofnodi, mesur neu asesu lefel sgiliau iaith Gymraeg ymhlith staff, yn fwyaf cyffredin trwy asesiad anffurfiol mewnol (59 y cant) ac asesiad y cyflogeion eu hunain o'u lefel (55 y cant)<sup>17</sup>.
- 2.8 Yn nhermau asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr fel rhan o brosesau recriwtio, canfu ymchwil 2014 fod tua un mewn wyth (12 y cant) yn gwneud hynny, eto gyda chyflogwyr yn y sector gofal plant yn fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny. Cyflogwyr yng ngogledd Cymru oedd fwyaf tebygol o fod wedi asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr yn ystod recriwtio (21 y cant) o gymharu gyda chwech y cant yn ne ddwyrain Cymru.
- 2.9 Roedd cyflogwyr a asesodd sgiliau Cymraeg ymgeiswyr yn fwyaf tebygol o fod wedi gwneud hynny'n llafar, drwy sgwrs anffurfiol gyda'r ymgeisydd, neu drwy gynnal rhan neu'r cyfan o'r cyfweiliad yn Gymraeg<sup>18</sup>.

---

<sup>14</sup> Ibid. Tudalen 27.

<sup>15</sup> Anghenion o ran Sgiliau iaith Gymraeg mewn Wyth Sector. 2014. IFF Research Cyf. ac Old Bell 3 Cyf. Yr wyth sector oedd: gofal plant, gofal cymdeithasol, creadigol, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth, gwasanaethau proffesiynol/busnes, manwerthu, amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd ac adeiladu. .

<sup>16</sup> Ibid. Tudalen 110.

<sup>17</sup> Ibid. Tudalen 111.

<sup>18</sup> Ibid. Tudalen 100.

## **Canllawiau blaenorol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg**

2.10 Cyfeiriodd cynllun busnes ELMS at y ffaith i Fwrdd yr Iaith Gymraeg<sup>19</sup> yn 2008 [fel y bodolai bryd hynny] gyhoeddi canllawiau ymarferol ar gyfer cyflogwyr a ddymunai ddatblygu Polisi Iaith Gymraeg. Mae'r ddogfen yn cynnwys adran ar Staff yn y Gweithle sy'n cynghori cyflogwyr i asesu sgiliau iaith cyflogeion a datblygu'r sgiliau hynny i gyflawni gofynion eu swyddi<sup>20</sup>.

2.11 Aeth y cynllun busnes ymlaen i ddweud nad oes unrhyw ffordd ymarferol ar hyn o bryd i alluogi cyflogwyr i gyflawni'r nodau polisi yma<sup>21</sup>.

## **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

2.12 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ym mis Ebrill 2010<sup>22</sup>. Dywed y strategaeth bod 'angen i'r Gymraeg gael ei chydabod fel sgil yn y gweithle gan ddatblygu dulliau gwell o gydnabod ac ennill sgiliau'<sup>23</sup>.

2.13 Mae Amcan Strategol AS3.7 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn nodi ymrwymiad i 'hyrwyddo cydnabyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil yn y gweithle, a datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu Cymraeg yn y gweithle'<sup>24</sup>. Er mwyn cyflawni'r amcan yma, mae'r strategaeth yn benodol yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu 'adnodd ar-lein ar gyfer asesu sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion o fewn y gweithle', ac yn dilyn hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn 'cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cyrsiau iaith Gymraeg ar gyfer gweithleoedd penodol sydd â gofynion hyfforddiant iaith'.

---

<sup>19</sup> Diddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2012

<sup>20</sup> Cynllun Busnes Cydgyfeirio ELMS. Tudalen 11.

<sup>21</sup> Ibid.

<sup>22</sup> Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg. Llywodraeth Cymru, Caerdydd. Ebrill 2010.

<sup>23</sup> Ibid. Tudalen 18.

<sup>24</sup> Ibid. Tudalen 18.

2.14 Yn ychwanegol, mae Amcan Strategol AS3.7 yn nodi y dylai darparwyr addysg a hyfforddiant annog 'cyflogwyr i ystyried a chydabod manteision gwella gwasanaeth i gwsmeriaid a swyddogaethau eraill drwy gael sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu' ac y bydd Canolfannau Gymraeg i Oedolion a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn 'sicrhau cynnydd mewn cyrsiau Gymraeg wedi'u teilwra ar gyfer y gweithle'<sup>25</sup>.

### **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru)**

2.15 Derbyniodd Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Ymysg pethau eraill, mae'r Mesur, a gyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

- Rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru
- Darparu ar gyfer Cyngor Partneriaeth Iaith Gymraeg
- Sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg
- Gwneud darpariaeth ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg
- Gwneud darpariaeth am safonau mewn perthynas â'r Gymraeg

2.16 Trafodwn y Comisiynydd Iaith a Safonau'r Gymraeg yn fanylach islaw yn y bennod yma.

### **Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru**

2.17 Ym mis Chwefror 2011 cyhoeddodd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) adroddiad ar Bolisiau Sgiliau a'r Gymraeg<sup>26</sup>. Gwnaeth yr adroddiad yma nifer o bwyntiau perthnasol, yn cynnwys nad oes unrhyw system gyffredinol ar waith ar gyfer adnabod anghenion sgiliau iaith Gymraeg cyflogwyr a sefydliadau<sup>27</sup>.

2.18 Canfu adroddiad WESB mai 'un anhawster i gyflogwyr yw diffyg dulliau addas a chydabeddedig o ddiffinio sgiliau iaith Gymraeg yn unol â galw

---

<sup>25</sup> Ibid. Tudalen 37.

<sup>26</sup> Polisiau Sgiliau a'r Iaith Gymraeg. Chwefror 2011. Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru.

<sup>27</sup> Ibid. Tudalen 4

cyflogwyr amdanynt. Gallai rhai cyflogwyr ddweud y byddai'n ddymunol cael rhywun sy'n siarad Cymraeg i lenwi rhai swyddi penodol, ond efallai na fyddai'r cyflogwr hwnnw'n dynodi'n glir y gwahanaeth rhwng y sgil i ddysgu, siarad neu ysgrifennu'r iaith<sup>28</sup>.

2.19 Dywedodd adroddiad WESB y byddai adnoddau addas a chyngor am sut i'w defnyddio yn ei gwneud yn rhwyddach i gyflogwyr a sefydliadau asesu'n gywir yr amrywiaeth o sgiliau iaith y maent yn edrych amdanynt<sup>29</sup>.

2.20 Ymhellach dywedodd y rhaglen fod 'rhai sefydliadau wedi mabwysiadu eu dulliau eu hunain ar gyfer mesur gallu ieithyddol, gan ddefnyddio modelau a ddefnyddir ar gyfer mesur sgiliau mewn ieithoedd tramor weithiau, p'run ai'n addas ai peidio bob tro' gan ychwanegu fod 'Adnodd Diagnostig newydd i helpu cyflogwyr asesu sgiliau iaith Gymraeg a galluoedd presennol wrthi'n cael ei ddatblygu fel rhan o'r rhaglen Gwella Sgiliau Arwain a Rheoli'<sup>30</sup>.

2.21 Gwnaeth WESB nifer o argymhellion yn eu hadroddiad, yn cynnwys:

- yr angen i ddatblygu fframwaith cyffredin ar gyfer mesur ac achredu sgiliau ieithyddol yn ôl continwwm cyflawni, gan ei gwneud yn bosibl asesu gallu 'gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu' ar wahanol lefelau dan benawdau ar wahân<sup>31</sup>
- y dylid hyrwyddo'r adnodd diagnostig newydd [Cymraeg y Gweithle] fel y bydd cyflogwyr yn ei chael yn haws asesu lefelau presennol sgiliau iaith Gymraeg o fewn eu gweithlu a hwyluso dadansoddiad cywir o'u gofynion<sup>32</sup>
- y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'r corff sy'n ei olynu ddynodi cyrff sectorol a chyflogwyr unigol sy'n fodlon gweithredu fel hyrwyddwyr iaith i hybu defnyddio'r iaith yn y gweithle drwy ddadansoddiad

---

<sup>28</sup> Ibid. Tudalen 4.

<sup>29</sup> Ibid. Tudalen 6.

<sup>30</sup> Ibid. Tudalen 7.

<sup>31</sup> Ibid. Argymhelliad 2 Tudalen 7.

<sup>32</sup> Ibid. Argymhelliad 3. Tudalen 8.

effeithlon o anghenion sgiliau iaith a gweithdrefnau recriwtio a hyfforddi a pharhau i hyrwyddo modelau arfer da gyda chyflogwyr sy'n dynodi angen i hwyluso defnydd y Gymraeg yn eu gweithleoedd<sup>33</sup>.

## **Strategaeth y Gymraeg**

2.22 Ym mis Mawrth 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Iaith Fyw: Iaith Byw', Strategaeth y Gymraeg ar gyfer 2012-2017<sup>34</sup>. Mae maes strategol pedwar y strategaeth yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'n cynnwys nod o 'gynnig rhagor o gyfleoedd i'r rheini sy'n medru'r Gymraeg ei defnyddio yn y gwaith'<sup>35</sup>.

2.23 Mae'r pwyntiau perthnasol a wneir yn y Strategaeth Iaith Gymraeg yn cynnwys:

- 'bod gan y gweithle rôl allweddol o ran ennyn hyder ymhlith siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn agweddau eraill ar eu bywydau'.
- 'er gwaetha'r cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r cyfleoedd i bobl weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n gymharol gyfyngedig. Mae hyn felly yn eithrio'r Gymraeg o un o'r meysydd allweddol i nifer o siaradwyr Cymraeg ac yn golygu na all siaradwyr Cymreg fanteisio ar y cyfle i normaleiddio eu defnydd o'r iaith'.
- 'mae ychydig o dystiolaeth sy'n dangos bod hyfforddiant ynglŷn ag ymwybyddiaeth ieithyddol yn ffordd lwyddiannus o gynyddu agweddau positif ymhlith gweithwyr a chyflogwyr tuag at y Gymraeg'.
- 'mae'r maes gwaith hwn [h.y. Cymraeg y Gweithle] yn eithaf newydd ... does dim llawer o dystiolaeth feintiol ynghylch y maes hwn ar gael ar gyfer asesu effaith gweithgareddau sydd wedi'u cynnal hyd yma'.
- 'mae'r sylfaen dystiolaeth ansoddol ... [yn dangos] fod nifer o wahanol ffactorau yn dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle gan

<sup>33</sup> Ibid. Argymhelliad 20. Tudalen 20.

<sup>34</sup> Iaith fyw: iaith byw. Strategaeth y Gymraeg 2012-17. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

<sup>35</sup> Ibid. Tudalen 37.

gynnwys arferion sydd wedi hen ennill eu plwyf lle ffefrir defnydd o'r Saesneg, materion yn gysylltiedig â gallu yn y Gymraeg, a rhesymau sefydliadol megis y ffaith nad oes digon o gymorth gan sefydliadau i gefnogi defnydd o'r iaith, a'r graddau y mae diwylliant y sefydliad yn hwyluso neu'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg'.

- 'rôl bwysig i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion o ran helpu gweithwyr i ddatblygu a mireinio eu sgiliau iaith ar gyfer y gweithle - ac ar draws pob sector.'
- 'bydd modd i Gomisiynydd y Gymraeg hefyd wneud cyfraniad pwysig i'r maes hwn drwy ddatblygu a gosod safonau gweithredu o dan Fesur y Gymraeg.... Bydd y Comisiynydd hefyd yn gyfrifol am gynnig cyngor i sefydliadau ymhob sector ynghylch arferion da - yn ogystal â pharatoi codau ymarfer<sup>36</sup>.

### **Comisiynydd y Gymraeg a Safonau Statudol yr Iaith Gymraeg**

2.24 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Mae dwy egwyddor yn sylfaen i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny<sup>37</sup>.

2.25 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg drwy godi ymwybyddiaeth o statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau statudol ar sefydliadau. Mae'r safonau newydd hyn mewn perthynas â'r Gymraeg yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar sefydliadau ac maent yn disodli'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a ddatblygwyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993<sup>38</sup>.

---

<sup>36</sup> Ibid. Tudalen 38.

<sup>37</sup> Ffynhonnell: Gwefan Comisiynydd y Gymraeg.

<sup>38</sup> Ffynhonnell: Ymateb y Gweinidog i adroddiadau safonau a nodyn cyngor Comisiynydd y Gymraeg. Gorffennaf 2014. Llywodraeth Cymru, Caerdydd.

2.26 Mae'r broses o gyflwyno safonau'r Gymraeg yn digwydd mewn cyfres o gylchoedd. Roedd y sefydliadau a gymerodd ran yn y cylch cyntaf yn cynnwys Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Yn ystod y cyfnod Ebrill i Fehefin 2015, bydd y Comisiynydd yn paratoi drafft 'nodiadau cydymffurfiaeth' unigol ar gyfer pob un o sefydliadau'r cylch cyntaf.

2.27 Mae nifer o safonau'r iaith Gymraeg yn uniongyrchol a phenodol berthnasol i Gymraeg y Gweithle yn cynnwys safonau 105-110 sy'n cyfeirio at gynllunio a hyfforddi gweithlu. Mae **Ffigur 1** yn rhoi crynodeb o'r safonau hyn.

### **Ffigur 1: Safonau'r Gymraeg 105-110: Cynllunio a Hyfforddi'r Gweithlu**

**Safon 105:** Rhaid i'r sefydliad lunio strategaeth yn amlinellu sut bydd y sefydliad yn:

- asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion a'i weithwyr er mwyn cydymffurfio â safonau
- asesu'r angen am sgiliau iaith Gymraeg cyn hysbysebu swydd wag neu swydd newydd
- trefnu ei gyflogeion a'i weithwyr er mwyn cydymffurfio â safonau sy'n berthnasol i'r sefydliad
- galluogi ei gyflogeion a'i weithwyr i gaffael sgiliau iaith Gymraeg er mwyn i'r sefydliad gydymffurfio â safonau
- darparu hyfforddiant drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd penodol ac mewn perthynas â nifer o faterion penodol

**Safon 106:** Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyfleoedd i'w gyflogeion a'i weithwyr gael hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.

**Safon 107:** Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyfleoedd i'w gyflogeion a'i weithwyr sydd wedi mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith i fynychu hyfforddiant ychwanegol i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg.

**Safon 108:** Rhaid i'r sefydliad ddarparu cyrsiau hyfforddiant er mwyn i'w gyflogeion a/neu ei weithwyr feithrin:

- ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- dealltwriaeth o'r gofynion sydd ar y sefydliad i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg
- dealltwriaeth o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.



**Safon 109:** Rhaid i'r sefydliad ddarparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ei gyflogeion a/neu ei weithwyr o'r Gymraeg ym mhob cwrs sefydlu i gyflogeion a/neu weithwyr newydd.

**Safon 110:** Rhaid i'r sefydliad ddarparu geiriad i'w gynnwys yn llofnodion negeseuon e-bost ei gyflogeion a/neu ei weithwyr sy'n siarad Cymreg, fel y bydd eraill yn gwybod eu bod yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.

Ffynhonnell: Safonau Arfaethedig mewn Perthynas â'r Iaith Gymraeg. Dogfen Ymgynghori. 6 Ionawr 2014 tud 23.

2.28 Mae grŵp pellach o safonau (111-115) yn ymwneud â recriwtio hefyd yn rhannol berthnasol, er bod y rhain yn canolbwyntio mwy ar argaeledd gwybodaeth a phrosesau yn y Gymraeg nac ar asesu sgiliau iaith Gymraeg fel y cyfryw.

2.29 Fel rhan o'i chyfrifoldebau dros hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, mae tîm y Comisiynydd yn cynnig cyngor a chymorth rhad am ddim i fusnesau a chyrrff trydydd sector yn cynnwys ymchwil a chanllawiau ar fanteision defnyddio'r Gymraeg. Mae rhan o'r gwasanaeth hwn yn cynnwys microsafle 'Hybu' sy'n cynnwys adran 'adnoddau a chymorth' ac adran ar gysylltiadau allanol<sup>39</sup>. Nodwyd serch hynny na ddangosodd ein hadolygiad o'r microsafle fel rhan o'r gwerthusiad yma unrhyw gyfeiriad neu ddolen amlwg at wefan Cymraeg y Gweithle.

### **Tystiolaeth Rhanddeiliaid - Y Cyd-destun Polisi**

2.30 Er y credent bod polisi ieithyddol clir a sail ddeddfwriaethol ar gyfer prosiect Cymraeg y Gweithle, teimlai'r rhanddeiliaid y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'r gwerthusiad terfynol fod ei gysylltiadau gyda'r agenda polisi arwain a rheoli ehangach ac yn neilltuol raglen ELMS (fel dull allweddol ar gyfer helpu i gyflawni'r amcanion hyn) rywfaint yn amwys.

2.31 Er ei bod yn glir y bwriadwyd defnyddio'r ddau adnodd diagnostig a ffurfiai ran o Cymraeg y Gweithle gan 'reolwyr' ar draws cyrff cyhoeddus, cyrff preifat a chyrrff trydydd sector, yn ymarferol ystyriai rhanddeiliaid fod

<sup>39</sup> Gweler: <http://www.comisiynyddygyymraeg.org/hybu/cy/hafan/hafan.aspx>

hyn yn hollol wahanol ac ar wahân i'r amcan polisi o fuddsoddi mewn, a gwella, sgiliau arwain a rheoli oedd yn ffocws allweddol ar gyfer ELMS. Felly, y farn gyffredinol a adroddwyd i ni oedd mai ELMS ar y cyfan fu'r cartref mwyaf 'cyfleus' ar gyfer Cymraeg y Gweithle ac y bu hyn yn ddatrysiad pragmatig yn nhermau sicrhau'r cyllid angenrheidiol i'w ddatblygu a'i gyflenwi. Yn y cyd-destun yma dywedodd un rhanddeiliad:

'Nid dyma'r ffit fwyaf perffaith mewn unrhyw fodd'.

2.32 Felly mae'r canfyddiad a adroddwyd ar gyfnod gwerthusiad interim ELMS yn cyfeirio at ddiffyg cysylltiad polisi clir rhwng sgiliau arwain a rheoli a sgiliau iaith Gymraeg yn parhau'n berthnasol ar y cam crynodol hwn yn ein gwaith:

'Er bod amcanion polisi strategol clir yn sail i ddatblygu a gweithredu'r adnodd diagnostig cyfrwng Cymraeg, yn ymarferol nid oes cysylltiad eglur rhwng yr ymrwymiad a nodir yn y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a sgiliau arwain a rheoli'<sup>40</sup>.

2.33 Tu hwnt i'r materion ynghylch i ba raddau y mae Cymraeg y Gweithle yn 'ffitio' gyda'r agenda polisi arwain a rheoli, teimlai rhanddeiliaid ei fod yn cynnig adnodd ardderchog i gyflogwyr yr oedd Safonau'r Gymraeg eisoes yn weithredol iddynt neu a fyddai'n weithredol iddynt yn y dyfodol agos er mwyn eu cynorthwyo a'u galluogi i gydymffurfio gyda safonau 105-110. Fel y dywedodd un rhanddeiliaid yn nhermau'r cyflogwyr hyn yn cyflawni eu goblygiadau statudol:

'Mae'n rhoi ateb ar blât'.

---

<sup>40</sup> Gwerthusiad Interim o ELMS. Tudalen 26.

### 3 Cymraeg y Gweithle - Dylunio a Gweithredu

- 3.1 Yn y bennod yma ystyriwn gysyniad, dyluniad a gweithrediad Cymraeg y Gweithle. Mae'r bennod yn defnyddio gwybodaeth a gyflwynwyd yng nghynlluniau busnes gwreiddiol ELMS, adroddiad gwerthuso mewnol a baratowyd gan CBAC a thystiolaeth a gasglwyd fel rhan o gyfweiliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid.

Canfyddiadau allweddol yn y bennod hon:

- Cafodd elfen Adnodd Diagnostig Cymraeg y Gweithle ei ddarparu ar y cyd gan CBAC a Fusion Workshop Cyf. Cydweithiodd y ddau sefydliad hyn yn dda ac mae'r cynnyrch gorffenedig, adnodd diagnostig ar-lein gydag asesiadau ar gyfer darllen, ysgrifennu, siarad a gwranddo yn gysylltiedig â disgrifiadau lefel Cymraeg i Oedolion, yn cyfateb yn agos gyda nodau gwreiddiol yr Adnodd.
- Ni ddatblygodd yr Adnodd Rheoli Sgiliau yn ôl y bwriad. Yn hytrach nag adnodd diagnostig rhyngweithiol, yr hyn a gafwyd mewn gwirionedd yw Canllaw Cynllunio Gweithle mwy goddefol a chyffredinol ar ffurf dogfen PDF a gyhoeddwyd ar wefan Cymraeg y Gweithle. Cymerwyd llawer o amser i ddatblygu'r Canllaw Cynllunio Gweithle ac ni chafodd ei lansio hyd Ionawr 2015, tua pedair blynedd ar ôl y syniad gwreiddiol am yr Adnodd Rheoli Sgiliau.
- Roedd diffyg ffocws a strategaeth o ran hyrwyddo Cymraeg y Gweithle a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i gyflogwyr a allai fod am ei ddefnyddio.

#### **Nodau Gwreiddiol**

- 3.2 Nod gwreiddiol Cymraeg y Gweithle oedd llunio porth ar-lein a fyddai'n cynnal dau adnodd diagnostig a fyddai'n:
- galluogi cyflogwyr i ddadansoddi pa sgiliau iaith Gymraeg y mae eu gweithlu eu hangen ac i gydnabod swyddi o fewn eu sefydliad y dylid eu targedu. Cyfeiriwyd at yr elfen yma fel yr Adnodd i Reolwyr

- rhoi ffordd i gyflogwyr i ddadansoddi sgiliau iaith Gymraeg presennol cyflogeion a chanolbwytio ar agweddau sydd angen eu gwella, er mwyn eu galluogi i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle. Cyfeiriwyd at yr elfen yma fel yr Adnodd Diagnostig Sgiliau <sup>41</sup>.

3.3 Esboniodd cynllun busnes ELMS 'y bydd yr Adnodd Diagnostig Rheoli yn adnodd dadansoddi ar-lein fydd yn galluogi cyflogwyr i asesu pa swyddi sydd angen deiliaid gyda rhywfaint o sgiliau iaith Gymraeg'. Er enghraifft:

- 'gall swydd croesawydd olygu fod angen i'r deiliad fedru cyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog a chynnal sgysiau sylfaenol, felly bydd y deiliad angen sgiliau iaith Gymraeg llafar
- gall swydd rheolwr cyfrif olygu fod angen i'r deiliad fedru trafod gwybodaeth fanwl penodol i'r sector a pharatoi adroddiadau, felly bydd y deiliad angen lefel uwch o sgiliau iaith Gymraeg, yn cynnwys y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg<sup>42</sup>.

3.4 Yn nhermau'r Adnodd Diagnostig Sgiliau, esboniodd cynllun busnes ELMS y byddai 'hyn yn adnodd dadansoddi ar-lein fydd yn galluogi rheolwyr i asesu sgiliau iaith unigol eu cyflogeion, a dynodi meysydd iaith sydd angen hyfforddiant. Bydd yr adnodd yn ei gwneud yn bosibl creu proffil iaith ar gyfer pawb a gyflogir a hefyd yn amlygu meysydd lle mae unigolion angen mwy o hyfforddiant'<sup>43</sup>.

3.5 Dywedodd cynllun busnes ELMS hefyd y byddai 'canlyniadau'r dadansoddiadau yn galluogi'r rheolwyr i ganolbwytio ar fylchau a ddangoswyd a gosod nodau realistig. Unwaith y bydd rheolwyr yn gwybod pa swyddi sydd angen sgiliau iaith Gymraeg a pha gyflogeion sydd eisoes â sgiliau iaith Gymraeg, gallant un ai ad-drefnu'r staffio presennol i sicrhau y caiff yr aelodau hynny o staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg eu dyrannu i swyddi y dynodwyd fod angen sgiliau iaith ar eu cyfer, neu gynllunio a chyflwyno rhaglen hyfforddiant iaith Gymraeg i

<sup>41</sup> Ffynhonnell: Cynllun Busnes Cydgyfeirio ELMS.

<sup>42</sup> Ibid. Tudalen 11.

<sup>43</sup> Ibid. Tudalen 12.

alluogi deiliaid swyddi i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Os yw rheolwyr yn penderfynu y bydd angen recriwtio cyflogeion newydd, gallant amlinellu gofynion iaith penodol yn y fanyleb person'<sup>44</sup>.

### **Gweithredu - Yr Adnodd Diagnostig i Reolwyr**

- 3.6 Ni chafodd yr Adnodd Rheoli ei ddarparu fel y rhagwelwyd. Tra bod y fanyleb wreiddiol yn nodi'n glir y byddai'r rhan yma o'r prosiect yn adnodd dadansoddi ar-lein, yr hyn a gafwyd mewn gwirionedd yw 'Canllaw Cynllunio Gweithle' ar ffurf dogfen PDF chwe tudalen y gellir ei lawrlwytho sydd ar gael ar wefan Cymraeg y Gweithle. Cafodd y canllaw ei hunan ei lanlwytho ar wefan Cymraeg y Gweithle yn Ionawr 2015; tua pedair blynedd ar ôl i'r prosiect gael ei gymeradwyo fel rhan o becyn cyffredinol ELMS.
- 3.7 Bwriedir i'r Canllaw Cynllunio Gweithle helpu cyflogwyr i benderfynu dau beth:
- a yw deiliad y swydd angen sgiliau iaith Gymraeg?
  - os ydynt, pa lefel sgiliau sydd eu hangen?<sup>45</sup>
- 3.8 Mae gwefan Cymraeg y Gweithle yn tanlinellu i ddarpar defnyddwyr 'na ddylid defnyddio'r canllaw fel ffordd simplistig o benderfynu anghenion sgiliau' ac y bydd angen 'i gyflogwyr ym mhob achos roi ystyriaeth ddyledus i gefndir, amgylchiadau a gofynion perthnasol y swydd'<sup>46</sup>.
- 3.9 Mae'r canllaw'n rhoi cyfres o 11 cwestiwn i helpu cyflogwyr i benderfynu os yw deiliad (neu ddeiliaid) swydd neilltuol angen sgiliau iaith Gymraeg. Os yw cyflogwyr yn penderfynu ar ôl ymateb i'r cwestiynau hyn nad oes angen sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y swydd dan sylw, mae'n dal i argymhell y dylai'r cyflogwr 'ystyried rhoi cyfle i ddeiliad y swydd ddysgu Cymraeg a derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg'. Dywed y

---

<sup>44</sup> Ibid. Tudalen 12.

<sup>45</sup> Canllaw Cynllunio Gweithle. Tudalen 1. Ffynhonnell: Gwefan Cymraeg y Gweithle.

<sup>46</sup> Ffynhonnell: Gwefan Cymraeg y Gweithle. Canllaw Cynllunio Gweithle.

canllaw ymhellach y bydd hyn 'yn annog cyflogeion i barchu hawliau'r rhai sy'n siarad Cymraeg a deall y gofynion deddfwriaethol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a chydaddoldeb'<sup>47</sup>.

- 3.10 Os daw cyflogwyr i'r casgliad fod sgiliau iaith Gymraeg un ai'n hanfodol neu ddymunol ar gyfer deiliad swydd neilltuol, mae'r canllaw'n nodi gwybodaeth a fydd o gymorth wrth benderfynu ar y math o sgiliau a'r lefel sydd eu hangen ac yn cysylltu hyn gyda lefelau fframwaith Cymraeg i Oedolion, y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF) ac ALTE/CEFR<sup>48</sup>. Rhoddir canllawiau yng nghyswllt sgiliau siarad, gwranddo, darllen ac ysgrifennu.
- 3.11 Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys darn o gyhoeddiad Comisiynydd y Gymraeg 'Recriwtio: Ystyried y Gymraeg' sy'n cyfeirio at hysbysebion swyddi, cynllunio manylebion person a datblygu sgiliau iaith o fewn disgrifiad swyddi.

### **Gweithredu - Yr Adnodd Diagnostig Sgiliau**

- 3.12 Penodwyd CBAC gan Lywodraeth Cymru (drwy'r Adran Addysg a Sgiliau) i ddatblygu a gwasanaethu'r Adnodd Diagnostig Sgiliau sydd ar gael ar wefan Cymraeg y Gweithle. Mae CBAC hefyd yn darparu cyfres o gymwysterau ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg. Dechreuodd contract CBAC yn Ionawr 2011 ac roedd yn wreiddiol i redeg am ddwy flynedd, er fod contract dilynol yn ymarferol wedi ymestyn y gwasanaeth i fis Mawrth 2015.
- 3.13 Fel rhan o'r contract, mae CBAC yn cyflogi Swyddog Datblygu Asesiad sy'n treulio oddeutu 80 y cant o'i amser yn gweithio ar brosiect Cymraeg y Gweithle. Mae'r swyddog yn treulio gweddill ei amser yn gweithio ar y Cynllun Sabothol Cymraeg<sup>49</sup>.

---

<sup>47</sup> Canllaw Cynllunio Gweithle. Tudalen 2. Ffynhonnell: Gwefan Cymraeg y Gweithle.

<sup>48</sup> Fframwaith Ewropeaidd Cyffredin Cyfeirio ar gyfer Ieithoedd

<sup>49</sup> Mae'r Cynllun Sabothol yn cynnig hyfforddiant Cymraeg a methodoleg i ymarferwyr sydd angen yr hyder a'r eirfa arbenigol i addysgu, darlithio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg

- 3.14 Cafodd cwmni preifat, Fusion Workshop Cyf, ei gontractio gan Lywodraeth Cymru i gyflenwi'r agweddau technoleg gwybodaeth yn ymwneud â chynnal gwefan Cymraeg y Gweithle.
- 3.15 Mae adroddiad gwerthuso mewnol, a baratowyd gan CBAC yn Ebrill 2014, yn rhoi trosolwg o'r Adnodd Diagnostig Sgiliau<sup>50</sup>.
- 3.16 Mae'r Adnodd Diagnostig Sgiliau a ddatblygwyd gan CBAC yn asesu, drwy brofion ar-lein, y pedwar sgil cyfathrebu allweddol y dywedir bod eu hangen mewn sefyllfaoedd busnes go iawn h.y. gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu<sup>51</sup>. Wrth ddylunio'r adnodd, roedd CBAC wedi ystyried ac adolygu nifer o adnoddau asesu a hunan-asesu iaith eraill (yn bennaf yn asesu sgiliau Saesneg yn Lloegr) ac wedi defnyddio nifer o wersi ymarferol ac arfer da yn ymwneud ag agweddau dylunio technegol.
- 3.17 Esboniodd adroddiad gwerthuso CBAC y cynlluniwyd y profion i fod yn addas ar gyfer pawb sy'n siarad Cymraeg, beth bynnag eu lefel, sydd angen asesiad cywir i sefydlu eu gallu iaith o fewn cyd-destun busnes neu weithle.
- 3.18 Cyn cwblhau'r profion ar-lein, mae'n rhaid i bob cyfranogydd yn gyntaf asesu eu gallu Cymraeg eu hunain ar gyfer pob un o'r pedair sgil allweddol. Caiff pob sgil wedyn ei hasesu ar wahân. Mae canlyniadau'r hunan-asesiad a'r profion yn seiliedig ar ddisgrifiadau lefel o fframwaith ALTEe (Cymdeithas Profwyr Iaith yn Ewrop), ar raddfa pum lefel sef:
- mynediad
  - sylfaen
  - canolog
  - uwch
  - hyfedredd.

---

neu'n ddwyieithog, neu y mae'n ofynnol iddynt addysgu Cymraeg ail iaith fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol. Ffynhonnell: gwefan CBAC.

<sup>50</sup> Gwerthusiad o Ddangosydd Sgiliau iaith Gymraeg y Gweithle. Adran Ymchwil, CBAC. Ebrill 2014.

<sup>51</sup> Ibid. Tudalen 1.

3.19 Caiff y raddfa bum-lefel hon ei defnyddio gan raglen Cymraeg i Oedolion Llywodraeth Cymru hefyd.

3.20 Defnyddir math o brofi addasol ar gyfer y profion gwrando a darllen. Caiff set ddechreuol o gwestiynau eu gosod ar y lefel hunan-asesu a roddir gan y cyflogai. Os cânt sgôr uwch am y cwestiynau hyn, rhoddir set bellach o gwestiynau iddynt ar lefel uwch. Os cânt sgôr isel gofynnir set o gwestiynau haws iddynt. Caiff lefel yr ymgeisydd ei osod unwaith y ceir sgôr canol-ystod ar gyfer set o gwestiynau<sup>52</sup>.

3.21 Gofynnir i'r holl gyflogeion wneud yr un tasgau ar gyfer y profion siarad ac ysgrifennu. Caiff atebion wedyn eu hanfon at aseswyr CBAC sy'n rhoi marciau o fewn 48 awr o dderbyn y profion. Caiff y canlyniadau eu hysbysu'n awtomatig i gyflogeion drwy'r wefan a dengys yr adroddiad cyffredinol:

- y lefel a gafwyd ar gyfer pob sgil a aseswyd
- y lefel gyffredinol, os aseswyd yr holl sgiliau
- disgrifiad o allu ar gyfer pob sgil a aseswyd
- awgrymiadau am hyfforddiant yn y dyfodol
- tabl yn dangos lle mae lefel cyfranogydd yng nghyswllt fframweithiau cydnabyddedig.

3.22 Cynlluniodd CBAC yr asesiadau gyda'r nod iddynt fod yn rhwydd eu defnyddio ac y gellid eu cymryd 'lle a phryd sy'n gyfleus i gyflogwyr, ac yn arbennig yn eu swyddfeydd'<sup>53</sup>. Cynlluniwyd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau hefyd fel y gallai cyflogwyr lawrlwytho'r canlyniadau ar gyfer pob cyflogai, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am recriwtio neu gynllunio ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg.

---

<sup>52</sup> Ibid. Tudalen 1.

<sup>53</sup> Ibid. Tudalen 2.



## Tystiolaeth Rhanddeiliaid - Gweithredu

- 3.23 Teimlai swyddogion Llywodraeth Cymru fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau a gyflwynwyd gan CBAC a Fusion Workshop yn debyg iawn i'r hyn a fwriedid ac yn gydnaws gyda'r nodau ac amcanion gwreiddiol.
- 3.25 Roedd consensws ymysg swyddogion Llywodraeth Cymru y gwnaethom eu cyfweled fod CBAC a Fusion Workshop wedi cydweithio'n dda ac wedi goresgyn rhai 'heriau technegol sylweddol' ar hyd y ffordd, ond yn y pen draw wedi llwyddo i greu adnodd diagnostig sy'n 'llenwi bwch gwirioneddol'.
- 3.25 Fodd bynnag roedd peth beirniadaeth am sut y cafodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau ac yn wir wefan ehangach Cymraeg y Gweithle (yn cynnwys yr hyn a ddatblygodd yn Ganllaw Cynllunio Gweithle) eu hyrwyddo i gyflogwyr. Dywedodd rhai budd-ddeiliaid er enghraifft y tu hwnt i ddynodi 'cyrff cyhoeddus, preifat a thrydydd sector' ac yn benodol y rhai yr oedd gofyniad statudol iddynt gael Cynlluniau Iaith Gymraeg (ac yn fwy diweddar i gydymffurfio gyda Safonau'r newydd mewn perthynas â'r Gymraeg) fel darpar defnyddwyr, y bu diffyg manylion pellach yn nhermau strategaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth. Dywedodd un rhanddeiliad er enghraifft y bu:
- 'Diffyg ffocws a strategaeth yn nhermau ei hyrwyddo'.
- 3.26 Gofynnodd yr un rhanddeiliaid pam, ar ôl buddsoddi yn y cynnyrch (h.y. yr Adnodd Diagnostig Sgiliau), yr ymddangosai fod Llywodraeth Cymru 'mor swil' am hyrwyddo mwy arno. Teimlai rhanddeiliaid hefyd fod cyfle i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i wneud mwy yn nhermau hyrwyddo ymwybyddiaeth, er enghraifft ar ei wefannau ac fel rhan o rôl y Comisiynydd i gynnig cyngor a chymorth i fusnesau. Ymddangosai hyn yn neilltuol o berthnasol wrth i Safonau'r Gymraeg gael eu hymestyn i fwy o gyflogwyr.

3.27 Awgrymodd tystiolaeth rhanddeiliaid am yr Adnodd Diagnostig i Reolwyr y bu nifer o resymau am yr oedi wrth ei ddatblygu. Yn ôl nifer o randdeiliaid, un o'r prif resymau fu dymuniad Llywodraeth Cymru i aros nes i gynnwys Safonau'r newydd mewn perthynas â'r Gymraeg ddod yn glir er mwyn sicrhau bod yr Adnodd yn rhoi ystyriaeth iddynt ac nad oedd risg eu bod yn eu gwrthddweud.

3.28 Dywedodd rhanddeiliaid fod yr oedi wrth aros am eglurhad am Safonau'r Gymraeg yn golygu fod y maes hwn o'r prosiect wedi colli momentwm ac y gallai cyflogwyr, yn ymarferol, ohirio gwaith i asesu gofynion Cymraeg swyddi:

'Mae'r ansicrwydd am y safonau wedi rhoi esgus perffaith i rai sefydliadau ohirio pethau'.

3.29 Roedd nifer o randdeiliaid hefyd yn siomedig bod y cynnyrch gorffenedig (canllaw PDF) yn eu barn nhw wedi ei 'lastwreiddio' ac yn awr yn 'fwy godddefol' na'r cysyniad gwreiddiol o adnodd diagnostig rhyngweithiol ar-lein. Tra'n cydnabod mai'r bwriad gwreiddiol oedd i'r elfen yma o'r prosiect fod yn fwy rhagweithiol, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod pryderon os oedd yn addas rhoi canllawiau pendant os y gallai swydd neilltuol fod angen sgiliau iaith Gymraeg. Dywedodd un rhanddeiliaid (tu allan i Lywodraeth Cymru):

'Roedd Llywodraeth Cymru yn nerfus am fod yn or-ragnodol neu'n cael eu hystyried fel bod yn dweud wrth gyflogwyr sut y dylent fynd ati i gynllunio eu gweithlu eu hunain yng nghyswllt y Gymraeg'.

3.30 Teimlid hefyd fod yr oedi (ni chyhoeddwyd y canllaw PDF ar wefan Cymraeg y Gweithle tan ddiwedd Ionawr 2015) yn golygu mai ychydig iawn o gyflogwyr oedd yn gwybod amdano, sydd yn ei dro hefyd wedi cyfyngu ar ein gallu i gasglu adborth arno.

## 4 Perfformiad - Targedau a Gwariant

4.1 Yn y bennod hon ystyriwn y targedau a osodwyd ar gyfer Cymraeg y Gweithle a sut mae'r perfformiad gwirioneddol yn cymharu â'r targedau hynny. Rydym hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r gyllideb wreiddiol ac yn ystyried all-dro ariannol gwirioneddol. Mae'r bennod yn defnyddio gwybodaeth o gynlluniau busnes gwreiddiol ELMS yn ogystal â data arall a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a CBAC.

Canfyddiadau allweddol a amlinellwyd yn y bennod yma.

- Roedd gan Cymraeg y Gweithle darged o gefnogi 60 o gyflogwyr yn yr ardal Cydgyfeirio a 40 cyflogwr yn ardal Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol. Roedd 106 o gyflogwyr wedi cofrestru ar gronfa ddata CBAC yn Ionawr 2015. Roedd cyflogeion 75 o'r cyflogwyr hyn wedi defnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau.
- Dengys gwerthusiad mewnol CBAC fod mwyafrif cyflogwyr cofrestredig yn ardal Cystadleurwydd a Chefnogaeth Rhanbarthol, gyda'r mwyafrif ohonynt yng Nghaerdydd.
- Cyrff sector cyhoeddus yw'r rhan fwyaf o'r cyflogwyr a gofrestrodd i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogwyr yn y sector Addysg, gyda'r Llywodraeth neu Lywodraeth Leol yn dilyn.
- Dengys data CBAC i 943 o gyflogai gofrestru i ddefnyddio'r adnodd. Fodd bynnag, ni fydd y cyfan ohonynt yn gyflogeion unigol gan i rai cyflogwyr greu nifer o gyfrifon, sy'n gwyro rhywfaint ar y data o ran cyfanswm nifer y cyflogeion a gynhaliodd asesiadau mewn gwirionedd.
- Menywod yw mwyafrif (tua 70 y cant) y cyflogeion a gofrestrodd ar gronfa ddata yr Adnodd Diagnostig Sgiliau.
- £688,000 oedd cyllideb wreiddiol Cymraeg y Gweithle. Roedd hyn yn un y cant o gyfanswm cyllideb wreiddiol ELMS. Erbyn Mawrth 2014, gwariwyd cyfanswm o £331,000 ar Cymraeg y Gweithle, 48 y cant o'r gyllideb wreiddiol.
- Roedd cost uned wirioneddol fesul cyflogwr a gefnogwyd gan yr Adnodd Diagnostig Sgiliau 36 y cant yn is nag yn y gyllideb a'r targedau gwreiddiol.

## Targedau

- 4.2 Yn nhermau targedau'n ymwneud â Cymraeg y Gweithle, nododd dau Gynllun Busnes ELMS (un ar gyfer yr ardal Cydgyfeirio a'r llall ar gyfer yr ardal Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol) y canlynol:

### **Ffigur 2: Targedau CAMPUS ar gyfer Cymraeg y Gweithle o Gynlluniau Busnes ELMS**

Datblygu dau adnodd diagnostig i ddynodi gofynion sgiliau iaith Gymraeg swyddi ac asesu sgiliau iaith Gymraeg cyflogeion.

Gosododd y Cynllun Busnes Cydgyfeirio y targed o dreialu'r adnoddau gyda 60 o gyflogwyr a gwnaeth newidiadau i'r adnoddau diagnostig ar gyfer eu hymestyn erbyn 2013.

Gosododd y Cynllun Busnes Cystadleurwydd a Chyflogaeth darged o dreialu'r adnoddau gyda 40 cyflogwr a gwnaeth newidiadau i'r adnoddau diagnostig ar gyfer eu hymestyn erbyn 2013.

Ffynhonnell: Papur Cydgyfeirio ELMS (Tudalen 21) a Chynlluniau Busnes Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol (Tudalen 22)

- 4.3 Drwyddi draw felly, y targed cyfun oedd y byddai prosiect Cymraeg y Gweithle yn treialu'r adnoddau diagnostig gyda 100 cyflogwr yng Nghymru.
- 4.4 Nid oedd dadansoddiad mwy manwl yn nhermau natur neu sector y cyflogwyr yr ymgysylltid â nhw. Hefyd noder na osodwyd unrhyw darged yn nghyswllt nifer y cyflogeion a fyddai'n cymryd rhan.
- 4.5 Yn nhermau asesu perfformiad gwirioneddol yn erbyn y targed yma, roedd cronfa ddata a gawsom gan CBAC yn Ionawr 2015 o gyflogwyr a gofrestrodd ar wefan Cymraeg y Gweithle yn cynnwys 106 o gyflogwyr cofrestredig.
- 4.6 O'r 106 cyflogwyr yma, dengys y data a gawsom gan CBAC fod gan 75 ohonynt o leiaf un cyflogai oedd wedi gorffen o leiaf un o'r pedwar aessiad sgiliau gan olygu nad oedd 31 o'r cyflogwyr cofrestredig (29 y cant) wedi defnyddio'r asesiadau gydag unrhyw staff hyd yma.

- 4.7 Mae hyn yn golygu drwyddi draw y cyflawnwyd 75 y cant o'r targed gwreiddiol i dreialu'r prosiect gyda 100 cyflogwr (fel yn Ionawr 2015), er ei bod yn rhaid nodi wrth gwrs mai dim ond drwy'r Adnodd Diagnostig Sgiliau ac nid y Canllaw Cynllunio Gweithle y cefnogwyd y 57 cyflogwr yma.
- 4.8 Nid oedd y data a ddarparwyd yn cynnwys manylion y siroedd lle'r oedd y cyflogwyr cofrestredig yn seiliedig. Fodd bynnag, yn ei werthusiad mewnol<sup>54</sup>, dadansoddodd CBAC leoliadau cod post 69 o gyflogwyr a gofrestrodd ar Cymraeg y Gweithle. Dangosodd hyn bod:
- 40 o'r 69 cyflogwr yn ardal y rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol (Dwyrain Cymru). Roedd mwyafrif y cyflogwyr hyn (34 cyflogwr) yng Nghaerdydd.
  - 22 o'r 69 cyflogwr yn yr ardal Cydgyfeirio (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)
  - 7 o'r cyflogwyr â chod post y tu allan i Gymru.
- 4.9 Dylid nodi yng nghyd-destun y categori diwethaf hwn, bod cronfa ddata CBAC yn cynnwys nifer o gyflogwyr gyda'u pencadlys y tu allan i Gymru ond gyda chylch gorchwyl darparu gwasanaeth o fewn Cymru (e.e. Cyngorau Sgiliau Sector a darparwyr hyfforddiant).
- 4.10 O'r 31 cyflogwr a gofrestrodd ar gronfa ddata CBAC nad oedd wedi defnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau, dengys y data bod:
- 2 wedi cofrestru yn ystod 2012
  - 15 wedi cofrestru yn ystod 2013
  - 14 wedi cofrestru yn ystod 2014, gyda thri ohonynt wedi cofrestru yn chwarter olaf 2014.

---

<sup>54</sup> Gwerthusiad o Ddangosyddion Sgiliau Iaith Gymraeg yn y Gweithle. Adran Ymchwil, CBAC. Ebrill 2014. Tudalen 5.

4.11 Mae hyn yn awgrymu, heblaw am y tri a gofrestrodd yn hwyr yn 2014, ei bod yn debygol fod cyfrifon defnyddiwr y 28 defnyddiwr 'hŷn' a gofrestrodd (26 y cant o'r 106 o gyflogwyr cofrestredig) yn segur.

4.12 Yn nhermau cyfansoddiad y sector, mae **Ffigur 3** yn rhoi trosolwg yn seiliedig ar ddata CBAC:

**Ffigur 3: Cyfansoddiad sector defnyddwyr cofrestredig Cymraeg y Gweithle**

Sector	Nifer defnyddwyr cofrestredig
Addysg	40
Llywodraeth/Llywodraeth Leol	26
'Arall'	17
Sefydliad sector cyhoeddus arall	9
Iechyd/Gofal	7
Diwydiannau Creadigol	4
Cyfiawnder	2
Gwasanaethau Ariannol	1
Cyfanswm	106

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cymraeg y Gweithle CBAC

4.13 Yn nhermau maint, roedd gan y cyflogwr lleiaf ar y gronfa ddata ddau gyflogai, tra bod gan y mwyaf tua 15,000.

4.14 Mae'n werth nodi fod 'addysg', y categori mwyaf, yn cynnwys Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, preifat (ôl-16 yn bennaf), darparwyr hyfforddiant a rhai ysgolion (cynradd ac uwchradd).

4.15 Nid oedd cronfa ddata CBAC yn cynnwys maes i gategoreiddio cyrff a gofrestrodd fel rhai sector preifat, sector cyhoeddus neu drydydd sector ac er nad ydym wedi ymgeisio gwneud hyn ein hunain (ar y sail nad yw'n glir mewn lleiafrif o gofnodion i ba un o'r sectorau y maent yn perthyn), mae'n glir bod mwyafrif y defnyddwyr cofrestredig ar y gronfa ddata (yn seiliedig ar enwau pob sefydliad fel y'i rhestrwyd) yn y sector cyhoeddus.

- 4.16 Yng nghyd-destun cyllid Cydgyfeirio yr ESF, efallai bod y tueddiad yma tuag at y sector cyhoeddus yn codi cwestiwn os gallai Cymraeg y Gweithle efallai fod wedi bod yn fwy cydnaws â Blaenoriaeth 'Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus - Creu'r Cysylltiadau' (Blaenoriaeth 4) yn hytrach na 'Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu' (Blaenoriaeth 3) lle cyllidwyd ELMS. Fodd bynnag, yn y pen draw, y bwriad oedd i Cymraeg yn y Gweithle fod yn gynllun peilot ac oherwydd ei fod yn gymharol fach, byddai gwneud cais ar ei gyfer ar ei ben ei hun ar gyfer cyllid ESF yn llai na dymunol oherwydd yr ymgyrch tuag at adnodd mwy strategol at ddyluniad prosiect. Tu hwnt i hynny, er y bu ei ddefnydd hyd yma yn y sector preifat yn fwy cyfyngedig, mae'n amlwg fod gan yr adnodd botensial i gyflogwyr preifat ei ddefnyddio yn y dyfodol fel rhan o'u gweithgareddau cynllunio gweithlu.
- 4.17 Dangosodd data CBAC fod cyfanswm o 943 o gyflogeion wedi cofrestru i ddefnyddio adnodd diagnostig Asesu Sgiliau. Mae hyn yn gyfartaledd cymedrig o 12.6 'defnyddiwr' fesul cyflogwr a gymerodd ran. Fodd bynnag, dywedodd CBAC yn eu tystiolaeth fod rhai cyflogwyr (am wahanol resymau) wedi creu cyfrifon 'defnyddiwr' lluosog, ac na ddefnyddiwyd rhai ohonynt a'u bod yn segur. O'r herwydd, mae'n bwysig nodi y bydd llai na 943 o bobl mewn gwirionedd wedi defnyddio'r Adnodd Diagnostig Asesu Sgiliau. I roi'r dadansoddiad hwn mewn cyd-destun, yn ei werthusiad mewnol (a gynhaliwyd yn Ebrill 2014) canfu CBAC fod wyth o gyflogeion ar gyfartaledd wedi cofrestru fesul cyflogwr.
- 4.18 Er nad oedd unrhyw dargedau penodol yn cyfeirio at nodweddion rhyw neu gymdeithasol-ddemograffig eraill cyflogeion a gymerodd ran yn yr Adnodd Diagnostig Sgiliau, dywedodd gwerthusiad CBAC mai menywod oedd 70 y cant o'r cyflogeion cofrestredig a bod hyn yn gyfran debyg i'r hyn a welwyd mewn cynigion ar gyfer arholiadau Cymraeg i Oedolion<sup>55</sup>.

---

<sup>55</sup> Gwerthusiad o Ddangosyddion Sgiliau Iaith Gymraeg yn y Gweithle. Adan Ymchwil, CBAC. Ebrill 2014. Tudalen 6.

## Cyllideb a Gwariant

4.19 Cyllideb wreiddiol prosiect Cymraeg y Gweithle oedd £688,835. Roedd hyn yn un y cant o gyllideb wreiddiol ELMS (rhaglenni Cydgyfeirio a Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol gyda'i gilydd) o £65.3m<sup>56</sup>.

4.20 Dengys **Ffigur 4** ddadansoddiad o gynnwys cyllideb wreiddiol Cymraeg y Gweithle.

**Ffigur 4: Dadansoddiad Cyllideb Cymraeg y Gweithle**

	£
<i>Eitem</i>	<i>Cyllideb</i>
Costau datblygu TGCh	330,000
Costau staff	234,000
Marchnata a hyrwyddo	70,000
Costau eraill yn cynnwys ffioedd cyfreithol, dylunio, cyfieithu a gweinyddu	50,835
Costau teithio a chynhaliath	4,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>688,835</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.21 Yn dilyn proses gaffael agored (a arweiniodd at benodi CBAC a Fusion Workshop fel darparwyr), roedd y costau ar gyfer cyflenwi'r gyllideb oedd ei hangen i gyflwyno prosiect Cymraeg y Gweithle yn is nag a ragwelwyd a chynhaliwyd gwaith ailbroffilio i ostwng y gyllideb ar gyfer y prosiect.

4.22 O fis Ebrill 2013, cwblhawyd proses gaffael newydd ar gyfer cynnal a chadw'r wefan a gwasanaethau rheoli a marchnata. Dyfarnwyd y contract hwn i CBAC a Fusion Workshop.

4.23 Y swm gwirioneddol a wariwyd ar Cymraeg y Gweithle hyd 31 Mawrth 2014<sup>57</sup> oedd £311,050, tua 49 y cant o'r gyllideb wreiddiol a ddyrannwyd.

<sup>56</sup> Ffynhonnell: Ffurflenni Hawlio Llywodraeth Cymru a WEFO ar gyfer prosiectau Cydgyfeirio a Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol ELMS.

<sup>57</sup> Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.



4.25 Mae **Ffigur 5** yn dangos dadansoddiad o gostau uned fesul cyflogwr ar sail y gyllideb wreiddiol a'r targed a'r perfformiad ac all-dro ariannol gwirioneddol.

**Ffigur 5: Dadansoddiad Cost Uned**

Dangosydd	£ Fesul Cyflogwr
Cost wreiddiol uned <sup>58</sup>	6,888
Cost wirioneddol uned <sup>59</sup>	4,414
Amrywiad (canran)	-36

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

4.25 Dengys hyn, er y cefnogwyd llai o gyflogwyr nag a ragwelwyd, mae'r costau is yn golygu fod y gost uned wirioneddol fesul cyflogwr a gefnogir 36 y cant yn is nag a awgrymir ar sail y gyllideb a thargedau gwreiddiol a gytunwyd sy'n gadarnhaol wrth ystyried gwerth am arian a'r gofyniad cyllideb posibl i alluogi gwasanaeth Cymraeg y Gweithle i barhau ar ôl diwedd cyllid ELMS ac ESF.

<sup>58</sup> Wedi'i gyfrif ar sail cyfanswm cyllideb o £688,835 gyda tharged o gefnogi 100 cyflogwr

<sup>59</sup> Wedi'i gyfrif ar sail cyfanswm gwariant o £331,050 gyda 75 o gyflogwyr mewn gwirionedd wedi defnyddio'r Dull Diagnostig Sgiliau iaith Gymraeg y Gweithle.

## 5 Cymraeg y Gweithle - Safbwynt Defnyddwyr

- 5.1 Yn y bennod hon, ystyriwn adborth gan ddefnyddwyr (cyflogwyr a chyflogeion) Cymraeg y Gweithle. Mae'r bennod yn defnyddio data o ddau arolwg ar y we ac adroddiad gwerthuso mewnol a gynhaliwyd gan CBAC. Mae hefyd yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd o'n hymchwil ansoddol gyda chyflogwyr a'u staff a gymerodd ran.
- 5.2 Mae'n bwysig nodi fod rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gyflwynir yn y bennod yma'n cyfeirio'n llwyr at yr Adnodd Diagnostig Sgiliau gan mai newydd gael ei lansio oedd y Canllaw Cynllunio Gweithlu pan y cynhaliwyd ein gwaith maes.
- 5.3 Er ein bod wedi dadansoddi canfyddiadau'r ddau arolwg ar y we a gynhaliwyd gan CBAC, dylid nodi fod y rhifau ymateb sylfaenol yn isel er eu bod wedi seilio ar boblogaethau bach. Cynhaliodd CBAC arolygon ar wahân ar y we o gyflogwyr a chyflogeion oedd wedi cofrestru ar wefan Cymraeg y Gweithle yn ystod 2014. Roedd 19 ymateb i'r arolwg cyflogwyr a 87 ymateb i'r arolwg cyflogeion. Fel cyfrannau o gronfa ddata Cymraeg y Gweithle CBAC, mae'r cyfraddau ymateb hyn yn 18 y cant o gyflogwyr a 9 y cant o gyflogeion. Mae felly angen rhywfaint o ofal wrth drin y canfyddiadau. Oherwydd y niferoedd sylfaen isel, rydym wedi osgoi defnyddio canrannau yn ein dadansoddiad o ddata arolwg CBAC.

Canfyddiadau allweddol a amlinellir yn y bennod hon.

- Cafodd y rhan fwyaf o gyflogwyr eu cymell i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau fel rhan o weithgareddau ehangach cynllunio gweithlu yn cynnwys archwiliadau sgiliau.
- Diffyg amser neu alluedd fu'r prif rwystr a nodwyd gan gyflogwyr cofrestredig na aeth ymlaen i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau a'i asesiadau.
- Roedd elfen hunanasesiad yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn addas ac yn ychwanegu gwerth o ran gosod yr asesiadau ar y lefel gywir ar gyfer y

cyflogeion a gymerodd ran. Fe wnaeth rhai cyflogeion 'ei chwarae'n ddiogel' er mwyn peidio gor-ddweud eu sgiliau iaith Gymraeg. Fodd bynnag, gallai'r feddalwedd addasu pa mor anodd oedd asesiadau wrth i gyflogeion eu cynnal.


- Roedd gwaith rhagweithiol CBAC yn hyrwyddo Cymraeg y Gweithle a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yn ganolog wrth i gyflogwyr ddod i wybod amdano.
- Roedd adborth cyffredinol defnyddwyr ar yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn gadarnhaol er bod ambell fater yn codi gan gynnwys y potensial i amlygu meysydd ar gyfer gwella wrth gyflwyno canlyniadau profion.
- Roedd cyflogeion a ddilynodd asesiadau gwranddo a siarad yn fwy tebygol o sôn am faterion technegol ac roedd yr adborth cyffredinol ychydig yn llai cadarnhaol yng nghyswllt y ddau brawf hyn (o gymharu gyda darllen ac ysgrifennu).
- Roedd cyflogwyr a chyflogeion yn canmol effeithiolrwydd a chysondeb CBAC wrth farcio a dychwelyd y canlyniadau. Yn gyffredinol, roedd cyflogwyr a staff hefyd yn fodlon iawn gyda'r ffordd y cyflwynwyd canlyniadau. Bu'r ffaith y cafodd y rhain eu cysylltu gyda lefelau Cymraeg i Oedolion yn neilltuol o ddefnyddiol.

### **Ymwybyddiaeth a Chymhelliant ar gyfer Defnyddio**

- 5.4 O safbwynt cyflogwyr, atebodd 18 o'r 19 ymatebydd i arolwg cyflogwyr CBAC gwestiwn am eu rhesymau am ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau. Mae Ffigur 6 yn rhoi trosolwg o'r ymatebion.

**Ffigur 6: Cymhellion cyflogwyr am ddefnyddio'r Dull Diagnostig Sgiliau<sup>60</sup>**

(Nifer)



Ffynhonnell: CBAC (Sylfaen: 18)

5.5 Dengys hyn i'r nifer uchaf o gyflogwyr a ymatebodd i arolwg CBAC (11) ddefnyddio'r adnodd i gynnal archwiliad o sgiliau iaith cyflogeion sydd angen iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

5.6 O'r 19 cyflogwr a ymatebodd i arolwg CBAC, atebodd 18 gwestiwn ar p'un ai oeddent wedi dechrau defnyddio'r dangosyddion asesu eto<sup>61</sup>. Dim ond chwech ddywedodd eu bod wedi dechrau defnyddio'r asesiadau a dangosyddion gyda'r 12 arall yn dweud nad oeddent wedi gwneud hynny hyd yma.

5.7 O'r 12 cyflogwr a ddywedodd nad oeddent wedi dechrau defnyddio'r asesiadau a dangosyddion hyd yma, rhoddodd 11 atebion pen-agored i

<sup>60</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd "beth oedd/yw eich rheswm dros ddefnyddio'r wefan?' Gallodd ymatebwyr dicio'r holl ymatebion perthnasol. Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 18.

<sup>61</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Ydych chi wedi dechrau defnyddio'r dangosyddion?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 18.

esbonio beth oedd wedi eu rhwystro rhag gwneud hynny<sup>62</sup>. Rhoddodd pedwar o ymatebwyr (y grŵp mwyaf) atebion testun agored yn nodi mai diffyg amser neu alluedd fu'r prif rwystr i weithrediad. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys un a soniodd am ddiffyg cefnogaeth gan staff ac un arall a ddywedodd eu bod yn disgwyl mwy o wybodaeth a chyflwyniad gan CBAC ar Cymraeg y Gweithle cyn symud ymlaen.

- 5.8 Gofynnodd CBAC hefyd i gyflogeion a ymatebodd os oeddent wedi cychwyn eu hasesiadau<sup>63</sup>. O'r 84 o gyflogeion cofrestredig a ymatebodd i'r cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif (63 ymatebydd) eu bod wedi cychwyn yr asesiadau.
- 5.9 Gofynnodd CBAC i ymatebwyr i'w arolwg o gyflogeion cofrestredig ateb cwestiwn os oeddent wedi deall diben yr hunan-asesiad (h.y. cyn cymryd yr asesiad llawn)<sup>64</sup>. Atebodd cyfanswm o 62 o'r 87 ymatebwr y cwestiwn yma gyda'r mwyafrif (56 o gyflogeion) yn dweud eu bod wedi deall diben yr hunanasesiad.
- 5.10 Atebodd cyfanswm o 61 o ymatebwyr arolwg cyflogeion CBAC gwestiwn os bu'r disgrifiadau lefel yn ddefnyddiol iddynt wrth gynnal hunanasesiad ystyrion<sup>65</sup>. Dywedodd y mwyafrif (52 ymatebydd) iddynt fod yn ddefnyddiol.
- 5.11 Yn nhermau'r pum cyflogwr yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r gwerthusiad crynodol yma, rhoddir crynodeb o'u hanghenion a'u cymhellion yn y blychau dilynol.

---

<sup>62</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Beth sy'n eich atal rhag gwneud hyn?' h.y. diffyg staff neu gefnogaeth rheolwr, diffyg adnoddau ...' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 11.

<sup>63</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'ydych chi wedi dechrau'r asesiadau'? Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogeion CBAC. Sylfaen = 84.

<sup>64</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Oeddech chi'n deall diben yr hunan-asesiad?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogeion CBAC. Sylfaen 62.

<sup>65</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'A oedd y disgrifiadau lefel yn ddefnyddiol i chi wneud hunanasesiad ystyrion?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogeion CBAC. Sylfaen 61.

Mae **Cyflogwr A** yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru a fu eisoes yn gwneud peth cynllunio gweithlu (cyn iddynt ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau) yng nghyswllt argaeledd gwasanaeth yn y Gymraeg yn gysylltiedig â'u cynllun iaith Gymraeg statudol.

Daeth Cyflogwr A i wybod am yr Adnodd Diagnostig Sgiliau i ddechrau ar ôl i CBAC gysylltu â nhw i ddweud wrthynt amdano. Fe wnaethant wedyn gymryd rhan yng ngham treialu dechreuol yr Adnodd Diagnostig Sgiliau cyn ei ymestyn gyda staff. Roedd Cyflogwr A hefyd yn gwybod am ac wedi gweld y Canllaw Cynllunio Gweithle a lanswyd yn ddiweddar.

Ystyriai Cyflogwr A fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn ffordd ddelfrydol o roi gwybodaeth fwy cynhwysfawr ar alluoedd presennol eu gweithlu ac i helpu hysbysu sut y gellid cynnig unrhyw hyfforddiant ychwanegol. Roedd 84 o staff cyflogwr A wedi cynnal asesiadau.

Mae **Cyflogwr B** yn gwmni sector preifat ac wedi sicrhau contract gan Lywodraeth Cymru fel rhan o gonsortiw ehangach oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg er fod y farchnad am hyn yn fach iawn yn eu hardal.

Daeth Cyflogwr B i wybod am yr Adnodd Diagnostig Sgiliau drwy aelod o'r consortiw yr oeddent yn rhan ohono. Roedd y cydweithiwr yma wedi cysylltu gyda CBAC a gofyn am gael gweld sut roedd yr adnodd yn gweithio.

Ystyriai Cyflogwr B fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn ffordd o asesu sefyllfa waelodlin y tîm ehangach (ar draws nifer o sefydliadau yn y consortiw) i fedru darparu gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog. Roedd chwe aelod o staff a gyflogid yn uniongyrchol gan gyflogwr B wedi cwblhau asesiadau a 17 arall o'r consortiw ehangach hefyd wedi gwneud hynny.

Mae **Cyflogwr C** yn gyflogwr sector cyhoeddus a gafodd ei gymell i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i gael mwy o wybodaeth am eu staff a siaradai Gymraeg, pa lefelau oedd ganddynt a lle'r oeddent yn seiliedig.

Daeth Cyflogwr C i wybod am yr Adnodd Diagnostig Sgiliau drwy gyflwyniad gan CBAC mewn cyfarfod rhwydweithio rhanbarthol a fynychwyd ganddynt.

Y nod oedd bwydo'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i bwyllgor cynllunio gweithlu y sefydliad. Roedd 70 o aelodau staff cyflogwr C wedi cwblhau asesiadau.

Roedd Cyflogwr C hefyd, ar un achlysur wedi defnyddio'r adnodd fel rhan o ymarferiad recriwtio (mewn gosodiad canolfan asesu) i asesu sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr ar gyfer swyddi y dynodwyd eisoes eu bod angen sgiliau iaith Gymraeg ar eu cyfer.

Roedd Cyflogwr C yn gwybod am ond heb ddefnyddio'r Canllaw Cynllunio Gweithle.

Mae **Cyflogwr D** yn rhan o'r sector addysg uwch. Daethant i wybod am yr Adnodd Diagnostig Sgiliau drwy gyswllt parhaus gyda CBAC a Swyddog Datblygu Asesu Cymraeg y Gweithle yn arbennig.

Gwyddai Cyflogwr D fod ganddynt lawer o staff a allai siarad Cymraeg ond ni wyddent ar ba lefel. Gwelent yr Adnodd fel ffordd o fedru cynllunio'n mwy strategol a chredent y byddai hefyd yn helpu i gyflawni oblygiadau yn codi yng nghyswllt Safonau'r Gymraeg. Roedd 14 aelod o staff cyflogwr D wedi cwblhau asesiadau.

Mae **Cyflogwr E** yn awdurdod lleol a chlywsant gyntaf am yr Adnodd Diagnostig Sgiliau drwy gyflwyniad gan CBAC mewn cynhadledd Cymraeg i Oedolion.

Penderfynodd Cyflogwr E y gallai'r Adnodd Diagnostig Sgiliau fod yn ddefnyddiol wrth ganfod y lefel briodol o hyfforddiant Cymraeg i Oedolion ar gyfer cyflogeion unigol.

Credai Cyflogwr E fod potensial i ddefnyddio'r adnodd fel rhan o brosesau recriwtio, er nad oedd wedi ei ddefnyddio yn y ffordd yma hyd yma. Ystyriant hefyd y gallai'r adnodd fod yn ddefnyddiol wrth 'sicrhau' staff am eu gallu yn y Gymraeg. Roedd tua 50 aelod o staff o gyflogwr E wedi cwblhau asesiadau.

Gwyddai'r cyflogwr am y Canllaw Cynllunio Gweithle ond nid oeddent wedi'i ddefnyddio hyd yma.

5.12 Dengys hyn fod gwaith rhagweithol CBAC yn codi ymwybyddiaeth o Gymraeg y Gweithle, a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yn neilltuo, yn bwysig yn y pump o gyflogwyr yma'n dod i wybod amdano ac yn y pen draw yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag credai pob un o'r pum cyflogwr y gwnaethom siarad gyda nhw y gellid gwneud mwy i hyrwyddo'r adnodd ac annog mwy o ddefnydd ohono, yn arbennig ymysg cyflogwyr y bydd yn ofynnol iddynt gyflawni Safonau'r Gymraeg fel y cânt eu hymestyn.

5.13 Dengys hefyd fod y cymhellion cyffredinol am ddefnyddio'r adnodd yn debyg ac yn cael eu gyrru'n bennaf gan ddymuniad i gasglu gwybodaeth fwy manwl a chadarn am sgiliau iaith Gymraeg staff fel rhan o weithgareddau ehangach cynllunio gweithlu.



## Adborth ar Natur, Ansawdd a Hwylustod Defnydd

- 5.14 Dywedodd chwech o'r 19 cyflogwr a ymatebodd i arolwg CBAC iddynt ddefnyddio'r asesiadau a'r dangosyddion. Gofynnwyd iddynt am adborth ar ba mor rhwydd neu anodd a fu<sup>66</sup>. O'r chwech, dywedodd pedwar y bu'n rhwydd a dywedodd dau y bu'n anodd. O'r ddau gyflogwr a ddywedodd y bu'n anodd, dywedodd un iddi fod yn 'anodd ei osod i fyny ac anfon dolenni at staff' a dywedodd yr ail y bu'n 'anodd annog staff i'w lenwi' a hefyd 'bu'n anodd darbwylo Adnoddau Dynol fod angen defnyddio adnodd gwyddonol o'r fath'.
- 5.15 Yn nhermau adborth cyflogeion ar yr Adnodd Diagnostig Sgiliau, gofynnodd CBAC (drwy ei arolwg o gyflogeion) os oedd y broses o gofrestru gyda Cymraeg y Gweithle yn glir<sup>67</sup>. Dywedodd y mwyafrif (79 o gyflogeion a ymatebodd) y bu'r broses yn glir. O'r lleiafrif (wyth o gyflogeion a ymatebodd) a ddywedodd nad oedd y broses gofrestru yn glir, ni allai dau gofio eu bod wedi cofrestru tra soniodd tri am anhawster mewngofnodi ar y wefan ac am broblemau wrth weithio'r wefan unwaith yr oeddent wedi mewngofnodi.
- 5.16 Roedd adborth gan gyflogwyr a chyflogeion a gyfwelwyd fel rhan o'r gwaith maes ansoddol yn cefnogi canfyddiad y mwyafrif gyda'r rhan fwyaf yn dweud y bu'r broses gofrestru yn syml. Fodd bynnag teimlai un cyflogwr a nifer fach o gyflogeion fod y broses gofrestru yn golygu 'llawer o waith' ac y medrid 'symleiddio tipyn arni'.
- 5.17 Canfu gwerthusiad mewnol CBAC, oedd yn seiliedig ar ddadansoddiad o 403 o gyflogeion a gwblhaodd brofion asesu fel yn Ebrill 2014 bod:
- 74 y cant (300 o gyflogeion) wedi cwblhau'r prawf darllen
  - 69 y cant (277 o gyflogeion) wedi cwblhau'r prawf ysgrifennu

---

<sup>66</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'A oedd hyn yn rhwydd/anodd ei wneud? Efallai y byddwch am gyfeirio at gefnogaeth rheolwyr/cyflogwyr, problemau technegol ...' Ffynhonnell: Holiadur arolwg cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 6.

<sup>67</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'A oedd y broses o gofrestru fel cyflogai yn glir?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogeion CBAC. Sylfaen = 87

- 50 y cant (201 o gyflogeion) wedi cwblhau'r prawf gwrando
- 32 y cant (129 o gyflogeion) wedi cwblhau'r prawf siarad<sup>68</sup>

5.18 Nododd gwerthusiad CBAC y cafodd y ddau brawf oedd angen offer ychwanegol (e.e. gwrando a siarad angen offer clustffonau a microffon) eu cwblhau'n llai aml, gan awgrymu y gallai defnyddio'r offer fod wedi bod yn rhwystr at gwblhau.

5.19 Cadarnhaodd y dystiolaeth o'n gwaith maes ansoddol gyda chyflogwyr a'r cyflogeion a gymerodd ran y canfyddiad y bu'r asesiadau gwrando a siarad yn fwy problemus ac yn dueddol o gael anawsterau gyda chaledwedd a meddalwedd.

'Cawsom rai problemau technegol gyda'r prawf siarad ac nid oedd y canllawiau mor glir. Fe wnaeth y prawf gwrando rewi'n aml a bu'n rhaid i ni ei wneud sawl gwaith oedd yn achosi rhwystredigaeth'. (Tystiolaeth gan grŵp ffocws gyda chyflogwyr yn cymryd rhan yng nghyflogwr A).

5.20 Yn yr arolwg o gyflogeion, gofynnodd CBAC gwestiwn pen-agored i ymatebwyr yn gofyn am sylwadau ar y gwahanol asesiadau roeddent wedi'u gwneud<sup>69</sup>. Dim ond 51 o'r 87 ymatebydd a atebodd y cwestiwn yma a gallodd y rhai a ymatebodd ddewis a rhoi adborth ar asesiadau lluosog. Dengys y data ymateb i'r cwestiwn yma fod y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn wedi cwblhau pob un o'r pedwar asesiad:

- Dywedodd 50 iddynt gwblhau'r asesiad darllen
- Dywedodd 49 iddynt gwblhau'r asesiad gwrando
- Dywedodd 49 iddynt gwblhau'r asesiad siarad
- Dywedodd 49 iddynt gwblhau'r asesiad ysgrifennu.

<sup>68</sup> Gwerthusiad o Ddangosyddion Sgiliau Iaith Gymraeg yn y Gweithle. Adran Ymchwil, CBAC. Ebrill 2014. Tudalen 6.

<sup>69</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Beth oedd eich profiad wrth lenwi'r asesiadau unigol?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogeion CBAC. Sylfaen 51.

#### 5.21 Dengys ein dadansoddiad o'r ymatebion pen-agored:

- cafwyd adborth cadarnhaol gan 37 o'r 50 ymatebydd a roddodd sylwadau ar yr asesiad darllen. Roedd yr adborth negyddol gan 13 ymatebydd yn ymwneud yn bennaf â'u canfyddiad y bu'r asesiad yn 'galed iawn' neu'n 'rhy anodd' gan awgrymu efallai nad oedd y weithdrefn hunanasesu wedi gosod cwestiynau'r asesiad ar y lefel fwyaf addas ar gyfer yr unigolion hyn
- cafwyd adborth gan 27 o'r 49 ymatebydd a roddodd sylwadau ar yr asesiad gwranddo. Roedd mwy o sylwadau negyddol (nag am ddarllen) yng nghyswllt yr asesiad gwranddo. Roedd rhai ohonynt yn ymwneud â lefel anhawster, rhai'n ymwneud â chyflymder yr asesiad (rhy gyflym) a rhai'n ymwneud â phroblemau technegol a gafwyd
- cafwyd adborth cadarnhaol gan 18 o'r 49 ymatebydd a roddodd sylwadau ar yr asesiad siarad. Soniodd y 31 arall am ystod o faterion yn cynnwys anawsterau technegol (yn bennaf yn ymwneud â microffonau), anawsterau meddalwedd a diffyg lle addas (tawel/preifat) i wneud yr asesiad
- cafwyd adborth cadarnhaol gan 30 o'r 49 ymatebydd a roddodd sylwadau ar yr asesiad ysgrifenedig. O'r 19 a roddodd adborth negyddol (fel gyda'r adborth ar yr asesiad darllen), ymddangosai fod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â bod y prawf yn 'rhy anodd' neu'n 'rhy galed' gan awgrymu unwaith eto efallai nad oedd y weithdrefn hunanasesu wedi arwain at osod cwestiynau ar y lefel fwyaf priodol.

#### 5.22 Roedd y rhan fwyaf o'r cyflogeion y gwnaethom eu cyfweld fel rhan o'n gwaith maes ansoddol wedi cwblhau pob un o'r pedwar asesiad Adnodd Diagnostig Sgiliau. Roedd yr adborth a roddwyd yn debyg iawn i ganfyddiadau'r CBAC ei hun, gyda phwyntiau allweddol yn cynnwys:

- bod yr adborth mwyaf cadarnhaol yng nghyswllt yr asesiadau darllen ac ysgrifennu a theimlid yn gyffredinol bod y cwestiynau a'r tasgau yn briodol ac yn berthnasol
- bod nifer y cwestiynau a ofynnwyd fel rhan o'r asesiad yn briodol er y teimlai rhai cyflogeion fod geiriad rhai o'r cwestiynau yn 'fwy addas ar gyfer dysgwyr nag ar gyfer siaradwyr Cymraeg rhugl'

- heblaw am rai problemau technegol a nodwyd gyda'r asesiadau siarad a gwrando, ystyrid yn gyffredinol ei bod yn rhwydd defnyddio'r feddalwedd a bod y cyfarwyddiadau'n glir er y teimlai rhai (lleiafrif) ei bod yn edrych ac yn teimlo rywfaint yn hen-ffasiwn
- ystyrid yn gyffredinol fod yr amseredd yng nghornel y sgrîn yn ddefnyddiol, er y nododd rhai fod hyn wedi 'ychwanegu ychydig o bwysau ychwanegol'
- bod cyfanswm yr amser oedd ei angen/a roddwyd i lenwi'r asesiadau yn briodol

'Cefais y broses gyffredinol yn hylaw, defnyddiol a gallaf weld ei manteision'. (Cyflogai o gyflogwr E).

'Mae'n gwneud y gwaith ... ond mae'r wefan yn edrych ac yn teimlo braidd yn hen-ffasiwn'. (Cyflogai o gyflogwr C).

### **Adborth ar Hunanasesiadau**

5.23 Yn ei adroddiad gwerthuso mewnol dywedodd CBAC fod cyflogeion yn tueddu i asesu eu sgiliau gwrando a darllen eu hunain ychydig yn uwch na'u sgiliau siarad ac ysgrifennu. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod dros chwarter yr holl gyflogeion yn bychanu eu sgiliau ysgrifennu, gyda llawer o rai oedd wedi hunansesu eu sgiliau ar lefel Sylfaen yn cael sgorau Canolradd ac Uwch. Daeth CBAC i'r casgliad o'r dadansoddiad tra gallai'r rhan fwyaf o bobl asesu eu sgiliau darllen a gwrando'n weddol gywir, o gymharu gyda'r canlyniadau profion terfynol, bod diffyg hyder mewn sgiliau darllen ac ysgrifennu ymysg rhai o allu cymharol uchel<sup>70</sup>.

5.24 Dengys tystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymweliadau ansoddol fod y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn y sefydliadau y gwnaethom ymweld â nhw wedi'i 'chwarae'n ddiogel' yng nghyswllt eu hunanasesiadau, er mwyn peidio gorddweud eu sgiliau iaith Gymraeg. Teimlai'r Rheolwr

<sup>70</sup> Gwerthusiad o Ddangosyddion Sgiliau Iaith Gymraeg yn y Gweithle. Adran Ymchwil, CBAC. Ebrill 2014. Tudalen 6.

Adnoddau Dynol yng nghyflogwr B fod hyn yn rhannol oherwydd 'diffyg hyder' ac wedi golygu fod y rhan fwyaf o staff a gymerodd ran (yn cynnwys y Rheolwr Adnoddau Dynol ei hunan) 'wedi eu siomi ar yr ochr orau pan ddaeth canlyniadau'r profion yn ôl'.

5.25 Roedd yr holl gyflogeion a gafodd eu cyfweld yn gweld gwerth a diben rhan hunanasesu'r broses a theimlai'r rhan fwyaf (er nid pawb) bod hyn wedi gweithio'n dda o ran sut y gosodwyd yr asesiadau dilynol.

Dywedodd un cyflogai:

'Roedd y feddalwedd yn glyfar iawn. Roedd yn dechrau ar sail eich hunanasesiad ond roedd yn amlwg yn addasu'r lefel wrth i chi fynd ymlaen'. (Cyflogai o gyflogwr A)

### **Adborth ar Asesiadau a Chyflwyno Canlyniadau**

5.26 Fel rhan o'i arolwg o gyflogeion, gofynnodd CBAC i ymatebwyr roi sylwadau os oedd canlyniadau'r asesiad a'r canlyniadau cyffredinol a roddwyd iddynt yn glir ac yn ddealladwy<sup>71</sup>. Dywedodd y mwyafrif a atebodd y cwestiwn (46 o'r 51 cyflogai) y cyflwynwyd canlyniadau'r asesiadau unigol a'r adroddiad canlyniadau cyffredinol mewn ffordd glir a dealladwy. Dim ond un o'r ymatebwyr a ddywedodd nad oedd y canlyniadau'n glir a awgrymodd sut y gellid eu gwella a'u hawgrym oedd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael adborth mwy manwl ar 'pa gwestiynau a gefais yn anghywir a pham'.

5.27 Roedd tystiolaeth o'n gwaith maes ansoddol i raddau helaeth yn cefnogi'r canfyddiad yma o safbwynt cyflogwyr a chyflogeion. Roedd y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r cyfweiliadau ansoddol yn cynnwys:

- bod cyflogwyr a chyflogeion yn gyffredinol yn canmol effeithiolrwydd CBAC wrth brosesu a marcio asesiadau a dychwelyd y canlyniadau

---

<sup>71</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'A gafodd canlyniadau'r asesiadau unigol a'r adroddiad canlyniadau cyffredinol ei gyflwyno i chi mewn ffordd glir a dealladwy?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogeion CBAC. Sylfaen 51.

- adborth cadarnhaol ar y ffordd y cyflwynwyd canlyniadau, er i un cyflogwr nodi fod siart bariau oedd yn rhan o'r adroddiad asesu braidd yn gamarweiniol. Dywedodd un cyflogai hefyd er fod y canlyniadau'n glir, eu bod yn 'teimlo ychydig bach yn gyffredinol'.
- barn gan nifer fach o gyflogeion y byddai'n ddefnyddiol cael adborth mwy ansoddol wrth ochr y canlyniadau i helpu dynodi meysydd i'w gwella yng nghyswllt sgiliau iaith Gymraeg (yn clymu gyda'r adborth a roddwyd i CBAC drwy'i arolwg ar y we - y cyferir ato uchod)
- cwestiynodd nifer fach o gyflogeion eu canlyniadau ac mewn dau achos teimlai'r cyflogeion fod canlyniadau'r prawf wedi bod yn rhy hael yn nhermau lefel eu Cymraeg, gan o bosibl godi disgwyliadau eu cyflogwyr tu hwnt i'r hyn y teimlent yn gyfforddus ac yn hyderus gydag ef
- cred y bu lefelau marcio CBAC yn gyson iawn.

## 6 Effeithiau

- 6.1 Yn y bennod yma, ystyriwn dystiolaeth ar effeithiau Cymraeg y Gweithle. Mae'r bennod yn seiliedig ar ddata o ddau arolwg ar y we<sup>72</sup> ac adroddiad gwerthuso mewnol gan CBAC. Mae hefyd yn defnyddio tystiolaeth o'n hadroddiad ansoddol gyda chyflogwyr a'u staff.
- 6.2 Fel gyda phennod 5, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gyflwynir yn y bennod hon yn cyfeirio'n llwyr at yr Adnodd Asesu Sgiliau. Er ein bod wedi dadansoddi canfyddiadau'r ddau arolwg ar y we a gynhaliodd CBAC, dylid nodi bod y nifer ymatebwyr sylfaen yn isel ac felly dylid trin y canfyddiadau gyda rhywfaint o ofal.

Canfyddiadau allweddol a amlinellwyd yn y bennod.

- Profodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn adnodd ategol defnyddiol i gyflogwyr yn eu gweithgareddau cynllunio gweithlu, er nad yw pawb wedi'i ddefnyddio yn y ffordd yma.
- Defnyddiodd rhai cyflogwyr ganlyniadau'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i wneud penderfyniadau gwybodus am fuddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg ac ystyried/penderfynu sut y dynodir y Gymraeg ym mhob swydd wag a hysbysebir.
- Roedd p'un a gymerodd cyfran ddigonol o staff ran yn ffactor allweddol yn y defnydd a wnaeth cyflogwyr o'r canlyniadau yn nhermau cynllunio gweithlu.
- Teimlai'r rhan fwyaf o gyflogwyr a ddefnyddiodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau fod y canlyniadau wedi rhoi darlun cliriach iddynt o sgiliau a gallu eu gweithlu yn y Gymraeg.
- Ni wnaeth Llywodraeth Cymru fonitro dilyniant cyflogeion a orffennodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau ac a aeth ymlaen i ymrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion. Byddai hyn wedi bod yn ychwanegiad defnyddiol i'r

<sup>72</sup> Cynhaliodd CBAC arolygon ar wahân ar y we o gyflogwyr a chyflogeion a gofrestrodd ar wefan Cymraeg Gweithle yn ystod 2014. Cafwyd 19 ymateb i'r arolwg o gyflogwyr a 87 ymateb i'r arolwg o gyflogeion.

prosiect a dangosodd yr ymchwil ansoddol nifer o enghreifftiau lle bu dilyniant i hyfforddiant Cymraeg gyda lefelau cadarnhaol o briodoliad.

- Mae peth tystiolaeth fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi arwain at effeithiau cadarnhaol ar ddiwylliant sefydliad yn cynnwys proffil uwch i'r Gymraeg yn y gweithle ac annog a chefnogi staff mewn gwahanol ffyrdd anffurfiol gan gydweithwyr i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith.
- Mae tystiolaeth fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi arwain at rai effeithiau cadarnhaol ar gyfranogwyr unigol. Soniodd cyfranogwyr am ymdeimlad o gadarnhad neu ddilysiad o lefel eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae hefyd wedi helpu rhai cyflogeion i gyfiawnhau cymryd rhan mewn hyfforddiant iaith Gymraeg a'u helpu i sicrhau eu bod wedi dewis hyfforddiant ar y lefel fwyaf priodol.

### **Effeithiau Cynllunio Gweithlu - Adnodd Diagnostig Sgiliau**

- 6.3 Yn ei arolwg cyflogwyr, gofynnodd CBAC i ymatebwyr ateb cwestiwn ar eu cynlluniau ar gyfer defnyddio Cymraeg y Gweithle ac yn benodol os a phryd y bwriadent gynnal archwiliad i ddynodi pa swyddi oedd angen eu llenwi gan rai â sgiliau iaith Gymraeg<sup>73</sup>.
- 6.4 Atebodd cyfanswm o 17 o'r 19 ymatebydd arolwg y cwestiwn yma a dywedodd 10 ohonynt eu bod yn bwriadu cynnal archwiliad o ba swyddi sydd angen sgiliau iaith Gymraeg. Dywedodd tri y bwriadent wneud hynny yn y tri mis nesaf, bwriadai tri wneud hynny yn y chwe mis nesaf a bwriadai pedwar wneud hynny yn y 12 mis nesaf. O'r saith ymatebydd a atebodd 'arall', dywedodd tri eu bod yn ansicr pryd y cynhelid archwiliad o'r fath.

---

<sup>73</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Beth yw cynlluniau eich sefydliad ar gyfer defnyddio'r wefan yn y dyfodol? Bwriadwn gynnal archwiliad i ddynodi pa swyddi sydd angen i'r deiliaid fod â sgiliau iaith Gymraeg'. Rhoddwyd yr opsiynau ymateb dilynol: Yn y tri nesaf, yn y chwe mis nesaf, yn y 12 mis nesaf ac 'ara'. Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 17.



- 6.5 Gofynnodd CBAC i ymatebwyr ei arolwg cyflogwyr hefyd ateb cwestiwn os y bwriadent gynnal archwiliad i asesu sgiliau iaith cyflogeion sydd angen iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith<sup>74</sup>.
- 6.6 Atebodd cyfanswm o 16 o'r 19 ymatebydd yr arolwg y cwestiwn yma a dywedodd naw ohonynt y bwriadent gynnal archwiliad i asesu sgiliau iaith Gymraeg deiliaid swyddi y dynodwyd fod angen iddynt ddefnyddio Cymraeg yn eu gwaith. Dywedodd tri ohonynt y bwriadent wneud hynny dros y tri mis nesaf, tri arall dros y chwe mis nesaf a'r tri olaf dros y 12 mis olaf. Rhoddodd y saith a ddewisodd 'arall' fel eu hymateb gymysgedd o atebion pen-agored yn cynnwys nad oedd ganddynt unrhyw fwrriad o gynnal archwiliad o'r fath (dau ymatebydd), eu bod eisoes yn defnyddio system fewnol oedd yn rhoi'r holl wybodaeth roeddent ei hangen (un ymatebydd) ac un arall a ddywedodd y byddent yn gwneud hynny pan fyddai'r angen yn codi.
- 6.7 Yn nhermau effeithiau cynllunio gweithlu ar y pum cyflogwr yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil ansoddol:
- dywedodd cyflogwr A y bu'r ymarferiad yn ddefnyddiol wrth helpu rheolwyr i ddeall 'pa sgiliau iaith Gymraeg sydd gennym ym mha adrannau'. Defnyddiwyd yr wybodaeth i helpu hysbysu penderfyniadau os y dylai swyddi gwag o fewn y sefydliad gael eu dynodi fel rhai 'Cymraeg yn ddymunol' neu 'Cymraeg yn hanfodol'. Fe'i defnyddiwyd hefyd i helpu hysbysu'r ffordd y buddsoddodd cyflogwr A mewn hyfforddiant Cymraeg ar gyfer ei staff.
  - esboniodd cyflogwr B fod ganddynt bellach ddarllun llawer cliriach o ba sgiliau iaith Gymraeg (ac ar ba lefel) oedd ganddynt o fewn eu sefydliad eu hunain ond hefyd ar draws tîm ehangach o bartneriaid consortiwm. Dywedodd cyflogwr B 'os oes gennym gleient sydd eisiau gwneud rhywbeth yn Gymraeg, rydyn ni nawr mewn sefyllfa

---

<sup>74</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Bwriadwn gynnal archwiliad i asesu sgiliau iaith cyflogeion sydd angen iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.'. Rhoddwyd yr opsiynau ymateb dilynol: yn y tri nesaf, yn y chwe mis nesaf, yn y 12 mis nesaf neu 'arall'. Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 16.

llawer gwell i wybod pa allu sydd gennym fel consortiwm ac yn gallu dyrannu aelod addas o'r tîm i ymateb i hyn'

- teimlai cyflogwr C fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi rhoi darlun cliriach iddynt o sgiliau a gallu Cymraeg eu gweithlu. Er y dywedodd y cyflogwr yma 'nad yw wedi bod yn holl gynhwysfawr' gan nad oedd yr holl staff wedi cymryd rhan, fe'i hystyrid fel 'man cychwyn mewn ymateb i angen y sefydliad'. Ychwanegodd Cyflogwr B y bwriadent, fel cam nesaf, gynnal ymarferiad cynllunio gweithlu pellach i fapio'r gwahaniaeth rhwng y sgiliau iaith Gymraeg sydd ganddynt ar hyn o bryd a'r hyn maent ei angen
- ni theimlai cyflogwr D fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi arwain at iddynt fod â darlun cliriach o sgiliau iaith Gymraeg eu gweithlu gan nad oedd nifer ddigonol o staff wedi ei lenwi. Er nad oedd unrhyw fuddion corfforaethol neu gynllunio gweithlu i gyflogwr D o ddefnyddio'r adnodd, teimlai'r rheolwr Adnoddau Dynol y byddai unigolion a wnaeth yr asesiadau wedi cael budd mewn gwahanol ffyrdd
- ni theimlai cyflogwr E fod ganddynt ddarlun cliriach o sgiliau Cymreg eu gweithlu fel canlyniad i ddefnyddio'r adnodd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd nad oedd nifer digonol wedi'i ddefnyddio, ond hefyd yn rhannol oherwydd fod cyfran uchel iawn o weithlu cyflogwyr E yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Bu'r buddion yn sefydliad E felly'n fwy amlwg ar lefel unigol.

6.8 Dengys hyn y bu effeithiau cadarnhaol yn nhermau cynllunio gweithlu mewn tri o'r pump cyflogwyr y gwnaethom ymweld â nhw.

'Yn gyffredinol, yr hyn a ddangosodd i ni yw bod ein sgiliau iaith Gymraeg fel cyflogwr yn well nag y credem'. (Cyflogwr A)

6.9 Fodd bynnag, mae hefyd yn awgrymu'n glir fod angen i nifer ddigonol o staff lenwi asesiadau Adnodd Diagnostig Sgiliau er mwyn i gyflogwyr deimlo ei fod yn ychwanegu gwerth yng nghyd-destun eu gweithgareddau ehangach cynllunio gweithlu.

6.10 Roedd peth tystiolaeth i awgrymu o'n gwaith maes ansoddol gyda chyflogwyr nad oedd cyflogeion o leiaf ddau o'r sefydliadau y gwnaethom ymweld â nhw yn hollol glir pam y gofynnwyd iddynt neu pam y cawsant eu hannog i wneud y Diagnostig Sgiliau. Dywedodd rheolwyr yn y ddau sefydliad yma wrthym iddynt geisio lliniaru pryderon ymysg rhai staff (er yn lleiafrif yn y ddau achos) i'w sicrhau na fyddai unrhyw oblygiadau negyddol iddynt fel canlyniad o wneud yr asesiadau. Dywedodd nifer fach o gyflogeion hefyd na wyddent sut yr oedd rheolwyr wedyn yn defnyddio'r wybodaeth a gawsant o'r Adnodd Diagnostig Sgiliau

'A bod yn onest, dwi ddim yn siŵr beth mae Adnoddau Dynol yn ei wneud gyda'r wybodaeth maent yn ei gael ohono'. (Cyflogai o gyflogwr A)

### **Effeithiau Cynllunio Gweithlu - Canllaw Cynllunio Gweithle**

6.11 Gan droi at effeithiau cynllunio gweithlu y Canllaw Cynllunio Gweithlu, roedd tri o'r pump cyflogwr y gwnaethom ymweld â nhw fel rhan o'n gwaith maes ansoddol yn gwybod am y Canllaw ac wedi ei weld ond heb ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd gynhwysfawr. Ni theimlai un o'r cyflogwyr ei fod yn arbennig o berthnasol i'w sefydliad gan y disgwyliad i'w holl gyflogeion fedru siarad Cymraeg neu ymrwymo i ddysgu'r iaith. Dywedodd ail gyflogwr yn ymarferol y byddai wedi bod yn 'ddefnyddiol i'r canllaw fod wedi bod ar gael cyn i ni wneud y Diagnostig Sgiliau'. Er y teimlai'r cyflogwr yma fod y cynnwys yn weddol ddefnyddiol, dywedwyd:

'Mae'n debyg y byddwn wedi hoffi iddo fod ychydig yn fwy rhyngweithol fel y gallai fod yn fwy penodol i'n sefyllfa ni. Mae'n teimlo ychydig bach yn gyffredinol fel y mae'. (Cyflogwr A)

6.12 Gofynnodd CBAC gwestiwn i gyflogwyr drwy ei arolwg ar y we os oedd yr wybodaeth oedd ar gael ar wefan Cymraeg y Gweithle yn ddigon i'w helpu i gynllunio eu gweithlu er mwyn cynnig gwasanaethau

dwyieithog<sup>75</sup>. Fe wnaeth cyfanswm o 16 o'r 19 cyflogwr a ymatebodd i'r arolwg ateb y cwestiwn yma. Dywedodd 13 ohonynt fod y wybodaeth ar y wefan yn ddigonol, tra dywedodd y tri arall nad oedd. Soniodd un o'r tri a ddywedodd nad oedd yn ddigonol fod ystyriaethau eraill hefyd yn bwysig, megis adnabod y staff yn bersonol.

6.13 Roedd un o'r cyflogwyr y gwnaethom ymweld â nhw (cyflogwr C) wedi defnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau fel rhan o ganolfan aessu recriwtio. Roedd y cyflogwr yma wedi trefnu ymlaen llaw gyda CBAC y byddai asesydd yn bresennol i farcio asesiadau a rhoi marcio/adborth ar unwaith. Roedd hyn wedi gweithio'n dda iawn o safbwynt y cyflogwr. Fodd bynnag nid oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i gyflwyno hyn fel rhan ffurfiol a pharhaus o'u prosesau recriwtio/derbyn gan eu bod eisoes yn cael eu ystyried yn 'hirfaith'.

### **Symud ymlaen i hyfforddiant iaith Gymraeg**

6.14 Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cynnal unrhyw waith i fonitro i ba raddau y mae cyfranogwyr a lenwodd asesiadau drwy'r Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi symud ymlaen yn ddilynol i gyrsiau Gymraeg i Oedolion. Yn hynny o beth mae ein dadansoddiad yng nghyswllt symud ymlaen i hyfforddiant iaith Gymraeg yn seiliedig ar waith maes ansoddol yn hytrach na dadansoddi gwybodaeth monitro. Er nad oedd Llywodraeth Cymru erioed wedi nodi hynny fel bwriad eglur, cytunodd rhanddeiliaid (o fewn Llywodraeth Cymru a CBAC) y byddai'n ddefnyddiol bod wedi casglu'r data yma.

6.15 Dangosodd ein gwaith maes ansoddol gyda chyflogwyr a chyflogeion nifer o enghreifftiau o ddilyniant i hyfforddiant yn y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys:

---

<sup>75</sup> Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'A yw'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan yn ddigonol i'ch helpu i gynllunio eich gweithlu er mwyn cynnig gwasanaethau dwyieithog?' Ffynhonnell: Holiadur arolwg Cyflogwyr CBAC. Sylfaen = 16.

- un cyflogwr yn trefnu 'Cwrs Cymraeg Clir' ar gyfer rhai o'i staff oedd yn canolbwyntio ymysg pethau eraill ar ysgrifennu'n naturiol ac ysgrifennu cynnwys ar gyfer gwefannau yn Gymraeg. Roedd y cyflogwr yma hefyd (fel canlyniad i'r Adnodd Diagnostig Sgiliau) wedi trefnu i diwtor Cymraeg gynnal sesiynau wythnosol ar gyfer ei staff (cyflogwr A)
- dau gyflogai (o gyflogwr A) a ddywedodd eu bod wedi ymrestru ar gwrs gloywi yn y Gymraeg
- un cyflogwr oedd yn y broses o drafod a chytuno gyda uwch reolwyr y posibilirwydd o gynnig cyfle i'r holl staff oedd wedi llenwi'r Adnodd Diagnostig Sgiliau i ymrestru ar gyrsiau Cymrag i Oedolion a gefnogid gan y cyflogwr (cyflogwr B)
- rhai cyflogeion a orffennodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau a aeth ymlaen i ymrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion (cyflogwyr A, C, D ac E)
- un cyflogwr sy'n bwriadu creu tudalen ar eu safle mewnwyd gyda gwybodaeth am yr Adnodd Diagnostig Sgiliau a dolenni i gyrsiau hyfforddiant Cymraeg i Oedolion (cyflogwr E).

6.16 Ym mhob un o'r achosion hyn, dywedodd y cyflogwyr a chyflogeion a roddodd dystiolaeth fod lefel priodoliad canolig i uchel i'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yng nghyswllt deilliannau hyfforddiant (a restrir uchod). Mewn geiriau eraill, credent y byddai'r deilliannau dilyniant wedi bod yn annhebygol pe na defnyddid yr Adnodd Diagnostig Sgiliau.

### **Effeithiau ar Ddiwylliant Sefydliad**

6.17 Dangosodd ein gwaith maes ansoddol gyda'n sampl o bum cyflogydd dystiolaeth o effeithiau cadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaeth a diwylliant sefydliadol.

6.18 Roedd hyn yn cynnwys dau gyflogwr (A a B) a ddywedodd fod rheolwyr yn awr yn annog staff i fod yn llawer mwy rhagweithiol wrth ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle, yn cynnwys drwy ohebiaeth ysgrifenedig (e-bost

yn bennaf). Cydnabu aelodau staff yn y ddau sefydliad yma hyn a dweud eu bod wedi cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn y gweithle o ganlyniad.

- 6.19 Roedd un cyflogydd (cyflogydd B), ynghyd â'r Adnodd Diagnostig Sgiliau, wedi penderfynu cynnal cyfres o ddiwyddiadau a gweithgareddau i roi teimlad mwy 'Cymreig' i'r sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau gweithle o amgylch Dydd Gŵyl Dewi a ddefnyddiwyd hefyd i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg.
- 6.20 Yn yr un modd, teimlai aelod o staff o gyflogwr C fod gan y Gymraeg 'fwy o broffil' oherwydd bod nifer o bobl wedi defnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau - er enghraifft gyda mwy o bobl yn gwisgo rhuban diogelwch gyda logo 'siarad Cymraeg'. Teimlai'r cyflogai yma hefyd fod 'cymuned Gymraeg' yn dechrau dod i'r amlwg a bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn y sefydliad wedi paratoi tudalen mewnwyd i weithredu fel 'rhwydwaith cefnogi' ar gyfer cydweithwyr oedd yn dysgu'r iaith.
- 6.21 Roedd un cyflogwr (cyflogwr A) wedi cynnwys adolygiad o'r Gymraeg a defnydd y Gymraeg yn eu strwythur ar gyfer gwerthuso staff.

'Rwy'n meddwl efallai fod y diwylliant yn fwy cefnogol yn awr. Fe wnaethom sylwi ar nifer o bethau bach ymarferol y gallem eu gwneud i helpu a chefnogi staff o'r asesiadau. Rydyn ni wedi ceisio pwysleisio na ddylent ofni defnyddio eu Cymraeg. (Cyflogwr A)

### **Effeithiau ar Gyfranogwyr Unigol**

- 6.22 Yn nhermau'r effeithiau ar gyfranogwyr unigol, awgrymodd y dystiolaeth o'n hymweliadau ansoddol fod hyn wedi arwain at un ai ymdeimlad o gadarnhad neu ddilysu eu 'lefel' yn nhermau sgiliau iaith Gymraeg a/neu gyfiawnhad ei fod yn gwneud synnwyr iddyn nhw (a'u cyflogwr) i fuddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg ar eu cyfer.

6.23 Ar gyfer y rhai a deimlai ei fod yn cyfiawnhau iddynt gymryd mewn hyfforddiant, bu'r asesiadau hefyd yn ddefnyddol iawn wrth helpu i ddynodi lefel priodol hyfforddiant (ar raddfa Cymraeg i Oedolion).

'Rydw i'n credu fod y math yma o asesiad yn ddefnyddiol iawn i unigolion sy'n dysgu ac unigolion fel fi nad ydynt wedi defnyddio Cymraeg yn y gweithle ers peth amser ac sydd angen cadarnhad o'r safon maent wedi ei gyrraedd. Gallaf gysgu ychydig yn dawelach nawr mod i'n gwybod nad yw fy Nghymraeg yn hollol erchyll!  
(Cyflogai o gyflogwr E)

'I mi, roedd yn bendant iawn am gadarnhau lefel fy Nghymraeg'  
(Cyflogai o gyflogwr A)

6.24 Dywedodd un cyflogai (o gyflogwr D) fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi eu darbwyllo fod eu sgiliau iaith Gymraeg yn well nag yr arferent gredu ac wedi rhoi hyder iddynt 'gymryd y cam nesaf' sef ymrestru ar ddsbarth gwella iaith. Teimlai'r cyflogai yma hefyd fod ganddo fwy o hyder (fel canlyniad y diagnostig) i helpu ei blant gyda gwaith ysgol.

## 7 Casgliadau ac Argymhellion

### Casgliadau

- 7.1 Mewn termau ariannol, elfen cymharol fach o raglen ehangach ELMS oedd Cymraeg y Gweithle. Roedd y cysylltiadau polisi rhwng Cymraeg y Gweithle a'r agenda gwella sgiliau arwain a rheoli bob amser rywfaint yn amwys. Fodd bynnag, mae'r polisi a'r cyd-destun deddfwriaethol yn ymwneud â'r Gymraeg ac yn neilltuol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Safonau'r Gymraeg newydd yn rhoi rhesymeg clir dros y buddsoddiad yn y prosiect.
- 7.2 Gan fod y rhan fwyaf o'r cyflogwyr a gefnogwyd yn rhai sector cyhoeddus, gellid dweud yn yr ardal Cydgyfeirio o leiaf y gallai fod wedi bod yn fwy priodol ariannu Cymraeg y Gweithle (un ai fel prosiect ESF ar wahân neu fel rhan o brosiect arall) drwy Flaenoriaeth gwella darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus 'Creu'r Cysylltiadau'. Yn ymarferol, fodd bynnag, oherwydd ei natur treialu a'i bod yn gymharol fach, roedd cynnwys Cymraeg y Gweithle fel rhan o ELMS yn ddatrysiad pragmatig a'i gwnaeth hi'n bosibl i'r prosiect symud ymlaen ac i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad polisi yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg i gyflwyno adnodd ar-lein ar gyfer sgiliau Cymraeg yn y gweithle.
- 7.3 Drwyddi draw, cyflawnodd prosiect Cymraeg y Gweithle 75 y cant o'i darged o weithio gyda 100 o gyflogwyr, er mai gyda dim ond un o'r ddau adnodd diagnostig arfaethedig y gwnaed hynny. Gwnaeth hyn o fewn y gyllideb yn gyfforddus, ar gost uned fesul cyflogwr 36 y cant yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol sy'n gadarnhaol wrth ystyried gwerth am arian a'r gofyniad cyllideb posibl i alluogi gwasanaeth Cymraeg y Gweithle i barhau ar ôl cyllid ELMS ac ESF. Gallai fod yn rhesymol dadlau felly y dylid bod wedi gwario cyfran uwch o'r cyllideb ar weithgaredd marchnata a hyrwyddo i annog mwy o ddefnydd.



- 7.4 Yn nhermau'r Adnodd Diagnostig Sgiliau, mae CBAC a Fusion Workshop wedi cydweithio'n dda ac wedi cyflenwi cynnyrch sy'n cyflawni'r briff gwreiddiol. Bu'r adborth gan gyflogwyr a chyflogeion a ddefnyddiodd yr Adnodd Diagnostig Sgiliau yn gadarnhaol, er y bu rhai problemau technegol ac ymarferol gyda'r asesiadau gwrando a siarad a amharodd ychydig ar brofiad defnyddwyr. Mae'r hunanasesiad wedi ychwanegu gwerth a bu'n adnodd defnyddiol wrth osod y cwestiynau asesu dechreuol ar y lefel briodol, er yr ymddengys fod cyflogeion yn gyffredinol ar y cyfan wedi bod yn ofalus i beidio gor-ddweud eu sgiliau iaith Gymraeg cyn gwneud yr asesiadau.
- 7.5 Cafodd y rhan fwyaf o gyflogwyr eu cymell i ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau fel rhan o'u gweithgareddau cynllunio gweithlu gyda golwg ar iddo gynhyrchu gwybodaeth fwy manwl am sgiliau iaith Gymraeg a lefelau sgiliau eu staff. Bu gwaith CBAC yn codi ymwybyddiaeth o'r Adnodd hefyd yn bwysig ac roedd eu gwaith yn y cyswllt hwn yn nodweddiadol ym mhob un o'r pum sefydliad yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad.
- 7.6 Roedd yr adborth ar yr effeithiolrwydd a chysondeb y ffordd y cafodd y gwahanol asesiadau eu marcio ac y cyflwynwyd y canlyniadau gan CBAC yn gadarnhaol o safbwynt cyflogwyr a chyflogeion fel ei gilydd. Roedd cyflogwyr a chyflogeion hefyd â barn gadarnhaol am gysylltu canlyniadau'r asesiad gyda lefelau sgiliau Cymraeg i Oedolion er y byddai cyfranogwyr unigol wedi gwerthfawrogi mwy o adborth ansoddol ar yr hyn a gawsant yn anghywir a sut y gallent wella.
- 7.7 Mae adborth gan gyflogwyr yn awrgrymu, er y gallant ddefnyddio'r wybodaeth a'r canlyniadau o'r Adnodd Diagnostig Sgiliau mewn ffyrdd gwahanol a gyda gwahanol raddau o ffurfioldeb, mae'r wybodaeth a roddir ynddo yn ddefnyddiol cyn belled â bod cyfran ddigonol o'r gweithlu wedi cymryd rhan i'w wneud yn ystyrlon. Yn y cyd-destun yma, dengys y dystiolaeth y cafodd rhai cyflogwyr yr Adnodd yn ddefnyddiol wrth fod yn sail i benderfyniadau am fuddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg i

staff presennol a sut y caiff anghenion sgiliau iaith Gymraeg eu diffinio yng nghyd-destun swyddi gwag a recriwtio. Dywedodd cyflogwyr a chyflogeion a roddodd dystiolaeth fod lefel priodoliad i'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yng nghanlyniad deilliannau hyfforddiant Cymraeg yn ganolig i uchel. Mewn geiriau eraill, byddai'r deilliannau cynnydd yma wedi bod yn annhebygol heb ddefnyddio'r Adnodd Diagnostig Sgiliau.

7.8 Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi monitro neu olrhain y rhai a lenwodd asesiadau Adnodd Diagnostig Sgiliau i ddeall faint a aeth ymlaen i ymrestru ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion, mae ein hymchwiliadau ansoddol gyda sampl bach o gyflogwyr yn awgrymu y bu graddfa dda o ddilyniant y medrir ei briodoli.

7.9 Mae hefyd dystiolaeth fod yr Adnodd Diagnostig Sgiliau wedi sicrhau rhai deilliannau cadarnhaol yng nghyswllt effeithiau ar ddiwylliant sefydliadau, yn cynnwys mwy o ddefnydd o Gymraeg ysgrifenedig a llafar, y Gymraeg yn cael proffil uwch yn y gweithle a chynnwys sgiliau iaith Gymraeg yn fwy ffurfiol fel rhan o brosesau parhaus gwerthuso ac asesu staff.

7.10 Prif effaith yr Adnodd Diagnostig Sgiliau ar y cyflogeion unigol a gymerodd ran fu rhoi cadarnhad ac mewn llawer achos sicrwydd am eu sgiliau iaith Gymraeg. Mewn rhai achosion, mae tystiolaeth i awgrymu fod hyn wedi arwain at wella hyder yn nhermau defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae hefyd dystiolaeth i awgrymu fod rhai unigolion wedi defnyddio canlyniadau'r Adnodd Diagnostig Sgiliau fel modd o ddarbwylllo cyflogwyr i fuddsoddi mewn hyfforddiant iaith Gymraeg ac yn y cyd-destun yma bu'r Adnodd yn ddefnyddiol wrth sicrhau y gwneir hyfforddiant ar y lefel briodol.

7.11 Yn wahanol i'r Adnodd Diagnostig Sgiliau, ni wnaeth yr Adnodd Diagnostig Rheoli ddatblygu yn ôl y bwriad. Yn hytrach na bod yn adnodd diagnostig rhyngweithiol fel y bwriadwyd yn wreiddiol, roedd pryderon o fewn Llywodraeth Cymru am fod yn or-rhagnodol gyda chyflogwyr a pheidio gwrthddweud safonau'r Gymraeg oedd wrthi'n cael

eu datblygu at gyhoeddi dogfen Canllaw Cynllunio Gweithle mwy goddefol yn Ionawr 2015, tua pedair blynedd ar ôl y syniad cyntaf am Adnodd Diagnostig Rheoli.

7.12 O'r herwydd, ni fu'n bosibl o fewn cwmpas ac amserlen y gwerthusiad yma i gasglu tystiolaeth ystyrion ar effeithiau y Canllaw Cynllunio Gweithle, er o gofio ei fformat presennol a'r ffaith na chafodd ei hyrwyddo'n rhagweithiol, daethom i'r casgliad fod y rhain yn annhebygol o fod yn sylweddol.

7.13 Ar gyfer cyflogwyr y mae'n ofynnol iddynt eisoes neu y bydd yn ofynnol iddynt yn y dyfodol agos iawn i gydymffurfio gyda Safonau newydd mewn perthynas â'r Gymraeg, mae Cymraeg y Gweithle, a'r Adnodd Diagnostig Sgiliau yn arbennig, yn rhoi datrysiad delfrydol iddynt i ategu eu gweithgareddau cynllunio gweithlu ehangach. Yn y cyd-destun hwn, ar ôl buddsoddi yn Cymraeg y Gweithle, mae'n bwysig fod Llyworaeth Cymru yn cael y budd mwyaf posibl ohono. Mae hyn yn golygu y bydd angen i gyflogwyr fod yn ymwybodol o Cymraeg y Gweithle a chael eu hannog i'w ddefnyddio'n barhaus. Fodd bynnag mae hyn yn codi cwestiwn os a sut y dylid ariannu'r gwaith parhaus hwn ac os y dylai'r cynnyrch presennol gael ei gynnal yn oddefol neu os y dylid ei hybu'n rhagweithiol, ei foderneiddio a'i uwchraddio maes o law.

### **Argymhellion**

7.14 **Argymhelliad 1.** Ar ôl buddsoddi i ddatblygu Cymraeg y Gweithle, mae angen i Lywodraeth Cymru yn awr ystyried a phenderfynu sut y gellid manteisio i'r eithaf ar gynyddu ei werth i gyflogwyr a'u cyflogeion yng Nghymru yn y dyfodol.

7.15 **Argymhelliad 2.** Er mwyn cynyddu gwerth a defnydd Cymraeg yn y Gweithle i'r eithaf yn y dyfodol, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddynodi a dyrannu adnoddau ychwanegol i barhau i hyrwyddo, gwasanaethu a maes o law efallai i ddatblygu ac uwchraddio'r wefan a'r Adnodd

Diagnostig Sgiliau. Byddai angen i'r buddsoddiad hwn roi ystyriaeth i'r galw tebygol yn y dyfodol er mwyn sicrhau fod adnoddau cyflenwi yn gymesur gyda'r galw a hefyd i sicrhau fod ansawdd ac effeithiolrwydd yr asesiadau'n parhau'n uchel. Heb y buddsoddiad parhaus hwn, mae'r defnydd o Cymraeg y Gweithle yn debygol o ostwng yn gyflym ac ni fydd yr adnoddau amrywiol yn cael eu defnyddio. Byddai hyn yn golygu bod risg y caiff ymrwymiad polisi allweddol yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ei esgeuluso.

**7.16 Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth gyfathrebu glir er mwyn ymgysylltu ac ymrwymo partneriaid allweddol megis Canolfannau Cymraeg i Oedolion, Comisiynydd y Gymaeg a rhwydweithiau proffesiynol eraill sy'n ymwneud ag adnoddau dynol ac iaith i helpu hyrwyddo ymwybyddiaeth o Cymraeg yn y Gweithle. Dylai'r strategaeth gyfathrebu hefyd osod adnodd mwy soffistigedig i ddynodi a thargedu'n strategol ddarpar gyflogwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â'r rhai y bydd Safonau'r Gymraeg yn berthnasol iddynt yn y dyfodol agos.

**7.17 Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio os gellir rhoi dull syml, cost-isel yn ei le i fonitro dilyniant defnyddwyr cofrestredig yr Adnodd Diagnostig Sgiliau i gyrsiau Cymraeg i Oedolion fel y gellir dadansoddi'r wybodaeth yma a'i defnyddio i helpu targedu adnoddau'n effeithlon yn y dyfodol.